

MESUR DIOGELWCH AR GLUDIANT I DDYSGWYR (CYMRU)

Memorandwm Esboniadol i'r Mesur arfaethedig ynghylch Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru)

Cafodd y Memorandwm Esboniadol hwn ei baratoi gan Adran yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 23.18. Mae'n nodi amcanion polisi a darpariaethau'r Mesur arfaethedig ynghylch Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) ac yn esbonio ei gwmpas.

Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i byddai darpariaethau'r Mesur arfaethedig ynghylch Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru), a gyflwynwyd gennyf ar 20 Medi 2010, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ieuan Wyn Jones AC

Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Yr Aelod Cynulliad â gofal am y Mesur Arfaethedig

20 Medi 2010

CYNNWYS

RHAN 1.....	3
1. Disgrifiad.....	3
2. Cefndir deddfwriaethol.....	4
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael.....	5
4. Ymgynghori.....	14
5. P• er i wneud is-ddeddfwriaeth.....	15
6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol.....	18
RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL.....	19
7. Opsiynau.....	19
8. Costau a manteision.....	26
9. Asesu'r gystadleuaeth.....	32
10. Adolygu ar ôl gweithredu.....	34
ATODIAD A - Nodiadau Esboniadol.....	35
ATODIAD B - Crynodeb o'r Arolwg Teithio i'r Ysgol 2010.....	46
ATODIAD C - Amcangyfrif o Gostau Gros y Prif Gynigion.....	50

1. Disgrifiad

1.1 Nod y Mesur arfaethedig ynghylch Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr yw gwella delwedd ac ansawdd cludiant penodedig i ddysgwyr a sicrhau bod y safonau diogelwch yn ddigon uchel i ennyn hyder y cyhoedd a'r rhieni mewn cludiant penodedig i ddysgwyr.

1.2 Mae'r Mesur yn cynnwys darpariaethau bras a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â chludiant penodedig i ddysgwyr a fydd yn rhoi dyletswydd ar gyffwrth perthnasol megis awdurdodau lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir i wneud fel a ganlyn:

- (i) gosod gwregysau diogelwch priodol (rhan 1);
- (ii) defnyddio cerbydau unllawr yn unig (rhan 1);
- (iii) defnyddio bysiau sydd wedi'u gweithgynhyrchu ar ôl dyddiad penodol (rhan 1);
- (iv) gosod teledu cylch cyfyng a bodloni'r amodau gweithredu a nodir gan Weinidogion Cymru (rhan 2);
- (v) defnyddio cerbydau sy'n bodloni'r fanyleb ar gyfer 'bysiau melyn' a'r safonau ar gyfer bysiau o'r fath (rhan 1);
- (vi) darparu'r safonau perthnasol ar gyfer hyfforddi gyrrwyr a nodir gan Weinidogion Cymru (rhan 4);
- (vii) cynnal yr asesiadau risg diogelwch a nodir gan Weinidogion Cymru (rhan 3);
- (viii) darparu staff i oruchwylio bysiau ysgol (rhan 5); a
- (ix) o ran tacsis a cherbydau hurio preifat, bodloni'r manylebau a nodir gan Weinidogion Cymru (rhan 1).

1.3 Mae'r Mesur hefyd yn gwneud darpariaeth fel y bo gan Weinidogion Cymru y p• er i wneud fel a ganlyn:

- (i) creu tramgwyddau troseddol ar gyfer achosion lle bo darparwyr cludiant i ddysgwyr sy'n methu â bodloni'r gofynion a bennwyd yn torri'r rheoliadau diogelwch (rhannau 1 a 2);
- (ii) creu cosbau sifil ar gyfer achosion lle bo darparwyr cludiant i ddysgwyr sy'n methu â bodloni'r gofynion a bennwyd yn torri'r rheoliadau diogelwch (rhannau 1 a 2 a'r Atodlen);
- (iii) sefydlu corff gorfodi er mwyn gorfodi'r rheoliadau (rhannau 7, 8, 9 a 10); a
- (iv) sefydlu tribiwnlys ar gyfer apelau (rhan 6 o'r Atodlen).

2. Cefndir deddfwriaethol

2.1 Mae'r p• er i wneud Mesurau Cynulliad yn cael ei ddarparu gan Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"). Mae adran 93 o Ddeddf 2006 yn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") wneud Mesurau. Mae'n ofynnol o dan adran 94 fod darpariaethau Mesur yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

2.2 Mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol o ran teithio gan ddysgwyr sy'n cwmpasu "trefniadau i bersonau deithio i fannau eraill ac o fannau eraill lle y maent yn derbyn addysg neu hyfforddiant" (gweler Rhan 1, Mater 5.10 Atodlen 5).

Y personau y cyfeirir atynt yw -

- (a) personau sy'n cael addysg feithrin, gynradd, uwchradd neu bellach neu hyfforddiant; a
- (b) personau a chanddynt anawsterau dysgu neu anabledau sy'n cael addysg uwch.

2.3 Rhoddodd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trafnidiaeth) gymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae Erthyglau 3 a 4 yn diwygio'r eithriadau cyffredinol i faterion o dan y pennawd "*Priffyrdd a thrafnidiaeth*" ym mharagraff A1 o Ran 2 o Atodlen 5. Mae'r eithriadau cyffredinol yn gymwys i'r holl faterion yn Rhan 1 o Atodlen 5. Mae Erthygl 3(2) yn diwygio eithriad (2) o dan y pennawd hwnnw, sydd yn eithriad ar gyfer rheoleiddio'r defnydd a wneir o gerbydau modur ar ffyrdd, eu gwneuthuriad a'u cyfarpar a'r amodau a osodir ar eu defnyddio, ar wahân i fathau penodedig o reoleiddio.

2.4 Mae'r diwygiadau'n caniatáu i'r Cynulliad wneud darpariaeth drwy Fesur i reoleiddio disgrifiad o gerbyd y ceir ei ddefnyddio yn unol â threfniadau ar gyfer cludiant i ddysgwyr o'r math a ddisgrifir ym mater 5.10 (gan gynnwys disgrifiad drwy gyfeirio at wneuthuriad a chyfarpar). Mae Erthygl 3(3) yn diwygio eithriad (14) o dan yr un pennawd sydd yn ymwneud â diogelwch trafndiaeth. Mae'r diwygiad yn caniatáu i'r Cynulliad wneud darpariaeth drwy Fesur i reoleiddio cludo oedolion goruchwyllo ar gerbydau a ddefnyddir yn unol â threfniadau ar gyfer cludiant i ddysgwyr.

3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Y cefndir ynghylch Teithio gan Ddysgwyr

3.1 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu rhwydwaith diogel ac effeithlon o drafnidiaeth a fydd yn gymorth i hybu datblygu economaidd ac yn hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol a chynaliadwyedd. Un o gonglfeini'r ymrwymiad hwn yn *Cymru'n Un* yw cyflwyno deddfwriaeth a fydd yn gwella diogelwch cludiant rhwng y cartref a'r ysgol.

3.2 Yng Nghymru, mae'n ofynnol yn statudol i awdurdodau lleol ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol i blant ysgolion cynradd sy'n byw ddwy filltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf ac i blant ysgolion uwchradd hyd at 16 oed sy'n byw dair milltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf. Mae'r gofyniad hwn yn cael ei ymestyn mewn achosion lle bydd amgylchiadau arbennig er enghraifft, ar gyfer dysgwyr a chanddynt anghenion addysgol arbennig neu lle nad oes ffordd ddiogel addas i'r ysgol o fewn y pellter statudol. Gall cludiant am ddim gael ei gynnig ar gerbydau penodedig sy'n darparu cludiant i'r ysgol neu ar wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Gall cludiant am ddim i'r ysgol gael ei ddarparu hefyd gan dacsï neu gerbyd hurio preifat; bydd hyn yn arbennig o berthnasol mewn ardaloedd gwledig ac yn achos disgyblion a chanddynt anghenion addysgol arbennig. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio eu disgresiwn hefyd i ddarparu cludiant y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol yn gyfreithiol. Cred Llywodraeth Cynulliad Cymru mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau o hyd i reoli darparu cludiant i ddysgwyr yn lleol.

3.3 Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yw'r fframwaith deddfwriaethol sy'n rheoli'r ddarpariaeth a wneir o ran cludiant i'r ysgol yng Nghymru. Mae'r Mesur a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2009 yn nodi'r amgylchiadau pryd y mae'n rhaid i awdurdod lleol ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol, mae hefyd yn hyrwyddo mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg, yn ymestyn pwerau penaethiaid ysgolion i fynd i'r afael â chamymddwyn ac yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol hyrwyddo cynaliadwyedd.

3.4 O ganlyniad i Arolwg Teithio Cenedlaethol 2007-08 cofnodwyd bod 45 y cant o ddisgyblion 5-16 oed yn cerdded i'r ysgol yng Nghymru, bod 22 y cant yn teithio ar fws tra bo 30 y cant yn cael eu gyrru i'r ysgol mewn car. O blith y rhai sy'n teithio i'r ysgol ar fws, nododd yr Arolwg Teithio i'r Ysgol a gynhaliwyd gan Uned Ddata Llywodraeth Leol ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, y teithiodd 90,596 o blant ar gerbydau penodedig sy'n darparu cludiant i'r ysgol tra bo 12,589 wedi teithio ar fysiau gwasanaeth cyhoeddus ar ddechrau'r flwyddyn ysgol 2009-10. Mae crynodeb o'r adroddiad ynghlwm yn Atodiad B.

3.5 Yng Nghymru mae plant ysgolion cynradd sy'n teithio i'r ysgol ar fws yn tueddu i ddefnyddio cerbydau penodedig sy'n darparu cludiant i'r ysgol. Mae tuedd i fysiau gwasanaeth cyhoeddus gael eu defnyddio gan ddisgyblion ysgolion uwchradd, yn arbennig y rheini sy'n teithio mewn ardaloedd mwy trefol eu natur.

3.6 Ym Mhrydain Fawr amcangyfrifir bod un car o bob pump yn ystod oriau brig y bore yn mynd â phlentyn i'r ysgol ac er ei bod hi'n amlwg bod y ffigur hwn yn amrywio o fan i fan mae canrannau'r rhai sy'n defnyddio ceir i fynd â phlant i'r ysgol yng Nghymru (30 y cant) yn gyfatebol yn fras i'r ganran ar gyfer Prydain Fawr (31 y cant sef y ffigur a nodir yn Arolwg Teithio Cenedlaethol 2007-08). Mae'r duedd gynyddol a welir i ddefnyddio ceir nid yn unig yn cyfrannu at fwy o dagfeydd traffig ar y ffyrdd a llygredd aer ond mae hefyd yn cynyddu'r risg o ran damweiniau traffig ar y ffyrdd; mae hefyd yn cyfrannu at effeithiau negyddol ehangach ar iechyd plant, eu hannibyniaeth a'u perthynas â'i gilydd yn gymdeithasol.

3.7 Mae wedi'i brofi bod manteision o ran iechyd i ymarfer yn rheolaidd ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi nifer o fentrau sy'n anelu at gynyddu canran y plant sy'n cerdded ac yn beicio i'r ysgol.

3.8 Dywed awdurdodau lleol yng Nghymru mai cludiant i ddysgwyr yw un o'u costau cynyddol mwyaf. Cynyddodd y gwariant ar ddarparu cludiant i'r ysgol o oddeutu £77m yn 2002/03 i fwy na £102.2m yn 2007/08 sy'n gyfatebol i gynnydd gwirioneddol o 16.4%. Yr elfen fwyaf o hyd yw cludiant i ddisgyblion ysgolion uwchradd ond mae'r gwariant ar gludiant ar gyfer disgyblion ag anghenion arbennig wedi codi o £19m yn 2003/04 (£21.6m ym mhrisiau 2008/09) i dros £26m yn 2008/09 (Ystadegau Addysg a Gwariant Refeniw Llywodraeth Cynulliad Cymru, wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant).

3.9 Gan weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Consortia Trafnidiaeth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ariannu nifer o brosiectau peilot i edrych ar ddulliau arloesol o wella effeithlonrwydd cludiant i'r ysgol. Er enghraifft, mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn edrych ar symleiddio'r broses o gaffael cludiant i'r ysgol a materion gweinyddol eraill. Mae'r prosiect yn edrych hefyd ar ymarferoldeb newid amseroedd sesiynau ysgolion fel y gellir defnyddio'r un bus a'r un gyrrwr ar gyfer mwy nag un daith. Yr hwb i hyn oll fu'r newidiadau a gyflwynwyd yn rhan o'r Mesur Teithio gan Blant (Cymru) 2008. Er mwyn manteisio'n llawn ar y cynnig o drefnu 'dwy daith yn un' bydd angen i'r holl ysgolion mewn rhanbarth arbennig gydweithio â'i gilydd. Disgwylir gweld yr argymhellion cychwynnol ar gyfer y prosiect hwn yn hwyrach eleni.

Amcanion y polisi

3.10 Prif nod y Mesur arfaethedig yw mynd i'r afael ag amcan Llywodraeth Cynulliad Cymru o wella delwedd cerbydau penodedig sy'n darparu cludiant i'r ysgol o ran diogelwch a'r profiadau a geir o deithio arnynt a gweithredu er mwyn sicrhau bod y safonau diogelwch yn ddigon uchel i ennyn hyder y cyhoedd a'r rhieni mewn cludiant ar y cyd i ddysgwyr. Bydd y Mesur arfaethedig hefyd yn cyfrannu at yr amcan ategol o annog peidio â defnyddio ceir o blaid defnyddio cludiant ar y cyd i'r ysgol.

3.11 Nod Llywodraeth Cynulliad Cymru yw rhoi'r newidiadau hyn ar waith yn y modd mwyaf cost-effeithiol a bydd, lle bo angen, yn darparu cymorth ariannol

ychwanegol tuag at gyflwyno'r nodweddion diogelwch penodol y gellir eu fforddio o fewn y cyllidebau presennol.

Gwella delwedd cerbydau penodedig sy'n darparu cludiant i'r ysgol oran diogelwch a'r profiadau a geir o deithio arnynt

3.12 Mewn ymateb i bryderon ynglŷn â nifer o ddamweiniau a oedd yn cynnwys bysiau yn cludo plant ac a arweiniodd at farwolaeth Stuart Cunningham-Jones ac anafu sawl un eraill, cynhaliodd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes adolygiad polisi o Gludiant i'r Ysgol. Cyhoeddwyd yr adolygiad polisi ym mis Ebrill 2005.

3.13 Gwnaed 30 o argymhellion o ganlyniad i'r adolygiad ynghylch materion yn ymwneud ag ymddygiad, eglurder o ran cyfrifoldeb, archwiliadau i gofnodion troseddol, asesu risg, caffael a materion yn ymwneud â chontractau a diogelwch cerbydau ar y daith i'r ysgol ac yn ôl adref. Cafodd y rhan fwyaf o'r argymhellion hyn eu rhoi ar waith gan ysgolion, awdurdodau lleol, consortia trafndiaeth rhanbarthol a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y pryd. Ymhlith y newidiadau mwyaf fu:

- (i) Cyflwyno Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a sefydlodd god ymddygiad statudol sef Cod Ymddygiad wrth Deithio a nodai'r safonau ymddygiad a fyddai'n ddisgwylidig gan ddisgyblion yn teithio rhwng y cartref a'r ysgol. Hefyd, gwnaed y Cod yn rhan o bolisi ymddygiad ysgolion. Lluniwyd y Cod ar ôl ymgynghori'n eang â'r holl brif randdeiliaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc, a'i nod yw hyrwyddo ymddygiad positif a sicrhau cysondeb wrth weithredu ac wrth bennu cosbau ledled Cymru.
- (ii) Aeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ati, mewn partneriaeth â'i rhanddeiliaid sef Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y consortia trafndiaeth a'r awdurdodau lleol ATCO a'r gweithredwyr trafndiaeth, i ddatblygu *Canllawiau Gweithredol ynghylch Teithio gan Ddysgwyr* ar gyfer awdurdodau lleol (Ebrill 2009). Mae'r ddogfen yn cynnwys cyngor statudol ar sut y gall awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â chludiant i'r ysgol, gan gynnwys cyngor ar y drefn o fynd ar fysiau ac oddi arnynt ar dir yr ysgol, defnyddio hebryngwyr, ac archwiliadau i gofnodion troseddol. Yn Rhan 6 cafwyd canllawiau anstatudol ar safonau cerbydau gan gynnwys defnyddio gwregysau diogelwch, y consesiwn '3 disgybl yn rhannu sedd i 2', bysiau deulawr, teledu cylch cyfyng, trwyddedu a hyfforddi. Yr Adran Drafndiaeth ar yr adeg honno oedd â'r pwerau i ddeddfu ynghylch y materion hyn. Fodd bynnag, nodwyd yn y cyhoeddiad ddisgwyliad Llywodraeth Cynulliad Cymru y byddai awdurdodau lleol yn gweithredu'r canllawiau er nad oedd unrhyw reidrwydd cyfreithiol dros wneud hynny.
- (iii) Paratôdd Consortiwm Trafndiaeth Integredig De-orllewin Cymru *Arweiniad ynghylch Asesiadau Risg Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol* ar gyfer Cymru gyfan ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru (Tachwedd 2009). Nod yr arweiniad yw cynorthwyo awdurdodau

lleol a gweithredwyr bysiau i gynnal asesiadau risg cynhwysfawr o'r daith rhwng y cartref a'r ysgol. Mae'r arweiniad yn ymwneud â phum maes yn benodol: y llwybr teithio; manau codi/gollwng; safle'r ysgolion; y gyrrwr a theithwyr cynorthwyol; ac yn olaf y cerbyd ei hun. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol sicrhau bod yr holl gontractau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn cael eu hasesu gan ddefnyddio'r arweiniad erbyn diwedd y flwyddyn ysgol 2010-11.

- (iv) Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn partneriaeth â'i rhanddeiliaid hefyd wedi ariannu nifer o brosiectau peilot llai sydd wedi'u hanelu at werthuso nifer o ddarpariaethau diogelwch mewn perthynas ag arferion gorau yng nghyswllt teithio i'r ysgol. Mae'r rhain wedi cynnwys prosiectau i edrych ar sut i fynd ati i annog plant ysgol i wisgo gwregysau diogelwch, treialu teledu cylch cyfyng a hebryngwyr ar fysiau a nodweddion diogelwch eraill. Mae disgwyl i'r prosiectau terfynol adrodd yn ôl ym mis Ebrill 2011 a rhagwelir y caiff canfyddiadau'r cynlluniau peilot hyn eu defnyddio'n sail i ddatblygu fframwaith o safonau diogelwch a rheoleiddio ar gyfer Cymru.

3.14 Yn ystod yr ymgynghori ar y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a'r craffu gan Bwyllgor Menter a Dysgu'r Cynulliad Cenedlaethol, fodd bynnag, daeth yn amlwg bod llawer yn pryderu ynglŷn â rheoleiddio cludiant i ddysgwyr a'r safonau diogelwch yng Nghymru. Ar yr adeg honno, nid oedd gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol ynghylch nodweddion diogelwch cerbydau. Canlyniad hyn fu galw am bwerau ychwanegol o du pob plaid a rhoddodd y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth ymrwymiad i'r Pwyllgor i geisio cael rhagor o bwerau ynghylch diogelwch cerbydau a gâi eu defnyddio at ddibenion darparu cludiant i ddysgwyr.

3.15 Cymeradwywyd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trafnidiaeth) 2010 gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ym mis Ebrill 2010. Mae'r cymhwysedd hwn yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ynghylch y disgrifiad o gerbydau modur i'w defnyddio i ddarparu cludiant penodedig i ddysgwyr ac ynghylch nodweddion diogelwch y cerbydau hynny. Mae'r cymhwysedd a roddir yn gymwys i fysiau penodedig sy'n darparu cludiant i'r ysgol, tacsis a cherbydau hurio preifat ond nid yw'n gymwys i fysiau gwasanaeth cyhoeddus, trenau, trafndiaeth breifat na cherdded a beicio. Mae eithrio bysiau gwasanaeth cyhoeddus o gymhwysedd y Cynulliad yn adlewyrchu sefyllfa bresennol y gyfraith ym maes teithio gan ddysgwyr yn hytrach nag yn bolisi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Y cynigion manwl

3.16 Disgrifir yn fanwl y darpariaethau penodol yn y Nodiadau Esboniadol sy'n dod gyda'r Mesur arfaethedig. Yn gryno, bydd y Mesur arfaethedig yn mynd i'r afael â diogelwch ar gerbydau a ddefnyddir at ddibenion teithio gan ddysgwyr drwy alluogi Gweinidogion Cymru i gynnig rheoleiddio o ran y canlynol:

Gosod gwregysau diogelwch priodol

3.17 Ar hyn o bryd mae'n rhaid i'r gwneuthurwyr osod gwregysau diogelwch ar fysiau mini, coetsys a bysiau (ar wahân i'r rhai sydd wedi'u dylunio i'w defnyddio mewn ardaloedd trefol gyda'r teithwyr ar eu traed) a gaiff eu defnyddio am y tro cyntaf ar 1 Hydref 2001 neu wedi hynny. Rhaid i'r gwregysau diogelwch gael eu gosod ym mhob sedd sy'n wynebu'r tu blaen a'r tu ôl. Rhaid i fysiau mini a choetsys sydd wedi'u cofrestru cyn 1 Hydref 2001 fod â sedd yn wynebu'r tu blaen ar gyfer pob plentyn gyda gwregys triphwynt, gwregys person anabl neu wregys glin. O dan Reoliadau Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus (Cynhwysedd Cludo) 1984, gall gweithredwyr bysiau ddefnyddio'r consesiwn '3 disgybl yn rhannu sedd i 2' sy'n caniatáu i dri phlentyn o dan 14 oed ddefnyddio sedd sydd wedi'i dylunio ar gyfer dau oedolyn lle nad oes gwregysau diogelwch wedi'u gosod. Yn ogystal, gall bysiau sydd wedi'u dylunio i'w defnyddio at ddibenion gwasanaeth trefol / cyhoeddus gael eu defnyddio'n gyfreithiol ar hyn o bryd o dan gontract ar gyfer ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am deithwyr sy'n sefyll ar eu traed (er nad yw swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymwybodol o unrhyw awdurdod lleol sy'n gwneud hyn).

3.18 Yn ogystal, mae elfen o Gyfarwyddeb 2003/20/EC ynghylch gwisgo gwregysau diogelwch sydd heb ei rhoi ar waith yn cael ei throsi ar hyn o bryd i gyfraith y DU. Bydd hyn yn gwneud rheoliad ynghylch gwisgo gwregysau diogelwch gan blant rhwng 3 a 14 oed lle y bônt wedi'u gosod yn y cerbyd.

3.19 Bydd y Mesur arfaethedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliad a fydd yn ei gwneud yn ofynnol bod gwregysau diogelwch yn cael eu gosod ar fysiau ysgol. Byddai deddfwriaeth o'r fath yn diddymu'n awtomatig y consesiwn '3 disgybl yn rhannu sedd i 2' gan y byddai'n rhaid i bob myfyriwr gael sedd a gwregys diogelwch ar y sedd. Byddai'r rheoliad hefyd yn atal defnyddio bysiau trefol at ddibenion teithio penodedig gan ddysgwyr oni bai y byddai gwregysau diogelwch ar gael ar y bysiau hynny.

Cerbydau deulawr

3.20 Argymhelliad Adolygiad Polisi'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes o Gludiant i'r Ysgol 2005 oedd y dylai'r defnydd a wneir o fysiau deulawr o dan gontract i ysgolion gael ei ddiddymu'n raddol ac y dylid defnyddio coetsys unllawr neu gerbydau arbenigol ar gyfer ysgolion yn eu lle. Cafwyd cyngor yn nogfen Canllawiau Gweithredol ynghylch Teithio gan Ddysgwyr 2009 yn erbyn defnyddio bysiau deulawr am resymau nad ydynt yn rhai eithriadol (trafodir y cyngor hwn ym mharagraff 3.12 (ii) uchod).

3.21 Byddai'r Mesur arfaethedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiddymu'n raddol y defnydd a wneir o gerbydau deulawr fel cerbydau sy'n darparu cludiant penodedig i ddysgwyr.

Cerbydau sydd wedi'u gweithgynhyrchu ar ôl dyddiad penodol

3.22 Nid oes angen i fysiau a gafodd eu gweithgynhyrchu cyn 1 Hydref 2001 gael gwregysau diogelwch wedi'u gosod. Mae wedi'i ddangos bod oed cerbydau a pha mor atyniadol ydynt yn dylanwadu ar y nifer sy'n defnyddio cludiant i'r ysgol ac ymddygiad disgyblion arnynt. Tybir felly bod diddymu'n raddol y cerbydau h•n yn gam pwysig tuag at wella delwedd, safon a dibynadwyedd cerbydau dan gontract sy'n darparu cludiant i'r ysgol.

3.23 Byddai'r Mesur arfaethedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiddymu'n raddol y defnydd a wneir o gerbydau h•n fel cerbydau dan gontract sy'n darparu cludiant i ddysgwyr.

Manyleb y "bysiau melyn"

3.24 Mae bysiau ysgol melyn yn cynrychioli safon arbennig o ran ansawdd a diogelwch ac fel arfer maent yn cynnwys y nodweddion cyffredin canlynol:

- gyrwyr penodedig sydd wedi'u harchwilio ac sydd wedi'u hyfforddi'n llawn ar weithrediad y bysiau ac ar oruchwylio plant
- sedd wedi'i gwarantu ar gyfer pob plentyn gyda gwregys diogelwch triphwynt addas at bob oed ar y seddau
- hyfforddiant cynefino a diogelwch ar gyfer pob disgybl
- cofrestr ar bob bws ar gyfer y disgyblion iau er mwyn rhoi tawelwch meddwl i rieni
- mesurau i gefnogi ymddygiad da yn amrywio o ddefnyddio teledu cylch cyfyng i ddefnyddio swyddogion a chodau ymddygiad
- cerbydau unllawr penodedig sydd wedi'u dylunio'n bennaf i gludo plant ysgol gyda'r lifrai melyn yn unol â'r arfer yn yr Unol Daleithiau.

3.25 Byddai'r Mesur arfaethedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i reoleiddio'r disgrifiad o fysiau er mwyn bodloni'r fanyleb ar gyfer y "bysiau melyn" a safonau bysiau o'r fath.

Gosod teledu cylch cyfyng

3.26 Mae teledu cylch cyfyng i'w weld yn fwy cyffredin ar fysiau erbyn hyn ac mae rhai awdurdodau eisoes wedi'i gynnwys yn rhan o amodau eu contract. Gall teledu cylch cyfyng ddarparu tystiolaeth i ddangos disgyblion sy'n camymddwyn fel y gellir cymryd camau i wella ymddygiad. Gall teledu cylch cyfyng hefyd fod yn werthfawr fel arf ataliol.

3.27 Byddai'r Mesur arfaethedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i deledu cylch cyfyng gael ei osod ar gerbydau sy'n darparu cludiant i ddysgwyr ac i fanylu ar y trefniadau gweithredol ar gyfer ei ddefnyddio. Bydd hyn yn cynnwys manylion ynghylch cyfrinachedd, defnydd, storio a chadw delweddau.

Safonau hyfforddiant i yrwyr

3.28 Hyd yma mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi annog awdurdodau lleol i gynnwys hyfforddiant priodol i yrwyr yn rhan o amodau eu contract. Mater i'r awdurdodau fu penderfynu a fyddent yn trefnu neu'n ariannu hyfforddiant i yrwyr yn ganolog neu'n ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwyr wneud eu trefniadau eu hunain.

3.29 Byddai Gweinidogion Cymru yn gallu cynnig gwneud rheoliad a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i yrwyr dderbyn hyfforddiant ar safon genedlaethol a byddent yn gallu pennu'r manylion ar gyfer gofynion hyfforddiant o'r fath. Er enghraifft, gallai'r hyfforddiant ymwneud â gwasanaeth i gwsmeriaid, cydraddoldeb, gweithio â phlant, amddiffyn plant, deddfwriaeth yn ymwneud â gwregysau diogelwch, delio ag ymddygiad heriol, nodi peryglon ac argyfyngau a chofnodi digwyddiadau.

Cynnal asesiadau risg diogelwch teithio gan ddysgwyr

3.30 Bydd y Mesur arfaethedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol gynnal asesiad risg ac i fanylu ar ofynion cynnal asesiad risg o'r fath. Mae'r arweiniad anstatudol cyfredol, sef *Arweiniad ynghylch Aseidiadau Risg Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol*, yn cael ei drafod ym mharagraff 3.13 (iii).

Goruchwylwyr ar gerbydau sy'n darparu cludiant i ddysgwyr

3.31 Bydd y Mesur arfaethedig yn caniatáu i Weinidogion Cymru fanylu mewn rheoliadau y gofynion manwl ar gyfer hebryngwyr ar gerbydau sy'n darparu cludiant i ddysgwyr, er enghraifft, i fandadu hebryngwyr ar yr holl gludiant a ddarperir ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd.

Tacsis a cherbydau hurio preifat

3.32 Byddai Gweinidogion Cymru yn gallu cynnig Rheoliad ynghylch y gofynion diogelwch ar gyfer Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat i'w defnyddio at ddibenion teithio gan ddysgwyr. Er enghraifft, gallai ei gwneud yn ofynnol bod clustogau hybu yn cael eu darparu lle bo'n briodol.

Cosbi a qorfodi

3.33 Cynigir y bydd y rheoliadau yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir i gydymffurfio â'r rheoliadau.

3.34 Mewn achosion lle na fydd awdurdod lleol wedi cyflawni ei ddyletswydd, neu lle bydd yn ymddwyn yn afresymol neu'n perfformio'n wael, mae gan Weinidogion Cymru b• er i gyfarwyddo awdurdodau lleol o dan Ddeddf Addysg 1996 i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn gywir. Hefyd, mae gan GPM-21-EM-S1

Weinidogion Cymru eisoes b• er o dan adran 15 o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i gyfarwyddo awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir. Wrth arfer unrhyw swyddogaethau o dan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, rhaid i sefydliadau ystyried arweiniad a chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru.

3.35 Yn ogystal, mae'r Mesur arfaethedig yn gwneud darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i orfodi'r rheoliadau yn achos person sy'n darparu cludiant i ddysgwyr o ran y disgrifiad o'r cerbydau y caniateir eu defnyddio at ddibenion cludiant i ddysgwyr a recordio delweddau gweledol neu sain ar gerbydau sy'n darparu cludiant i ddysgwyr. Mae'r Mesur arfaethedig yn ei gwneud hi'n bosibl:

- (i) i greu tramgwyddau troseddol am dorri'r Rheoliadau (rhannau 1 a 2)
- (ii) i greu cyfundrefn o gosbau sifil er mwyn gorfodi'r Rheoliadau (rhannau 1 a 2 a'r Atodlen).

3.36 Gall Gweinidogion Cymru benodi corff gorfodi i orfodi unrhyw reoliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 3.35 uchod. Mae hyn yn cynnwys pwerau arolygu, pwerau mynediad, a phwerau i fynnu gwybodaeth.

3.37 Gall cosbau troseddol amrywio yn dibynnu ar ddifrifoldeb y tramgwydd. Y gosb uchaf am rwystr arolygydd yw dirwy ar lefel 4, lle bo'r gosb uchaf am fetu â chydymffurfio â Hysbysiad Stop yn ddwy flynedd o garchar. Gall cosbau sifil gynnwys cosbau ariannol penodedig heb fod yn uwch na £5,000, gofynion dewisol, hysbysiadau stop a chymryd camau gorfodi neu gyfuniad o gosbau.

3.38 Gall Gweinidogion Cymru sefydlu tribiwnlys i ddelio ag apelau sifil.

3.39 Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phob awdurdod lleol ac â phob corff arall sydd yn eu barn hwy yn briodol cyn gwneud rheoliadau mewn perthynas â chosbau troseddol a sifil.

Rhesymau gweithredol eithriadol

3.40 Lle bo rhesymau gweithredol eithriadol (e.e. tywydd garw, y cerbyd yn torri i lawr neu mewn argyfwng lle mae'n bosibl na fydd modd i'r disgyblion fynd yn ôl adref fel arall) gall gweithredwyr bysiau ddarparu cerbydau eraill a fydd yn bodloni safonau archwilio MOT a VOSA (hynny yw, y safonau cyfreithiol cyfredol arferol) ond na fyddant yn bodloni'r gofynion diogelwch ychwanegol a bennwyd gan Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, ni chaniateir i unrhyw awdurdod lleol lunio contract â gweithredwyr bysiau i ddarparu cerbydau at ddibenion teithio gan ddysgwyr nad ydynt yn cydymffurfio â'r dyletswyddau a bennwyd gan Weinidogion Cymru nac i weithredwr ddefnyddio bysiau o'r fath yn arferol.

Y cyrff y mae'r mesur arfaethedig yn berthnasol iddynt:

3.41 - Awdurdod lleol

- Corff llywodraethu ysgol a gynhelir

- Person sy'n darparu cludiant i ddysgwyr a sicrheir gan naill ai awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir

Cymhwysiad Tiriogaethol

3.42 Dim ond i Gymru y mae'r Mesur hwn yn gymwys.

Cychwyn

3.43 Daw darpariaethau'r Mesur hwn i rym ar ddiwedd cyfnod o ddau fis sy'n dechrau ar y diwrnod y caiff y Mesur hwn ei gymeradwyo gan ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor.

4. Ymgynghori

4.1 Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ar wahân ar gyfer y Mesur arfaethedig gan fod Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi ymgynghori ynghylch cynigion cysylltiedig a roddodd fod i'r Mesur.

4.2 Yn benodol, cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) o fis Mehefin tan fis Medi 2007 pryd y trafodwyd materion yn ymwneud â rheoleiddio bysiau a diogelwch (<http://wales.gov.uk/consultations/transport/learnertravel/?lang=en&status=closed>). Hefyd, bu Pwyllgor Menter a Dysgu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn craffu ar y Mesur drafft ac yn adroddiad y Pwyllgor a gyhoeddwyd ar 21 Tachwedd 2007 tynnwyd sylw at bryderon tebyg ynghylch cyfyngiadau cymhwysedd y Cynulliad. (<http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-report/bus-committees-third-el-report-el3-07-r02.htm>).

4.3 Ymgynghorodd Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd ynghylch y *Canllawiau Gweithredol ynghylch Teithio gan Ddysgwyr* rhwng 19 Rhagfyr 2008 a 16 Chwefror 2009. Derbyniwyd 25 o ymatebion gan ystod eang o awdurdodau lleol, colegau ac undebau athrawon. Roedd yr holl ymatebion a gafwyd yn cefnogi'r canllawiau drafft at ei gilydd gan gynnwys y cyngor anstatudol ynghylch safonau diogelwch cerbydau.

4.4 Er mwyn cyflwyno'r Mesur arfaethedig yn ystod tymor presennol y Cynulliad, ni chynhaliwyd ymgynghori ffurfiol ar y Mesur arfaethedig ar yr adeg hon. Fodd bynnag, cysylltwyd â nifer eang o randdeiliaid megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), gweithredwyr bysiau, Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr, awdurdodau lleol a grŵp cludiant i'r ysgol Cymdeithas Cydgysylltwyr Trafnidiaeth yn ystod y gwaith o ddrafftio'r Mesur er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ynghylch datblygiadau. Y bwriad yw cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn ynghylch unrhyw reoliad a wneir o ganlyniad i'r Mesur.

5. P• er i wneud is-ddeddfwriaeth

5.1 Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Nodir yn y tabl isod mewn perthynas â phob darpariaeth:

- y person neu'r corff y rhoddir y p• er iddo;
- ar ba ffurf y caiff y p• er ei arfer;
- priodoldeb y p• er a ddirprwywyd;
- y weithdrefn a ddefnyddir (cadarnhaol, negyddol); ac
- esboniad ynghylch unrhyw weithdrefn Cynulliad sy'n gymwys.

Adran	P• er yn cael ei roi i	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Y rheswm am y weithdrefn
Adran 1 <u>Disgrifiadau o gerbydau y caniateir eu defnyddio yn gludiant i ddysgwyr</u>	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Yn addas ar gyfer rheoliadau a fydd yn darparu manylion a fydd yn dilyn ymlaen o fwriad y Mesur ac a fydd yn caniatáu diwygiadau yn y dyfodol os bydd eu hangen.	Gweithdrefn Gadarnhaol Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phob awdurdod lleol ac unrhyw berson arall a fydd yn eu tyb nhw yn briodol	Mae'n sicrhau cydbwysedd rhwng y gallu i wneud rheoliadau a/neu ddiwygiadau yn gyflym os bydd angen a rhoi i'r Cynulliad reolaeth dros lunio rheoliadau a/neu ddiwygiadau arfaethedig ai peidio.
Adran 2 <u>Recordio delweddau gweledol neu sain ar gludiant i ddysgwyr</u>	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Yn addas ar gyfer rheoliadau a fydd yn darparu manylion a fydd yn dilyn ymlaen o fwriad y Mesur ac a fydd yn caniatáu diwygiadau yn y dyfodol	Gweithdrefn Gadarnhaol Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phob awdurdod lleol ac unrhyw berson arall a fydd yn eu tyb nhw yn briodol	Mae'n sicrhau cydbwysedd rhwng y gallu i wneud rheoliadau a/neu ddiwygiadau yn gyflym os bydd angen a rhoi i'r Cynulliad reolaeth dros lunio

			os bydd eu hangen.		rheoliadau a/neu ddiwygiadau arfaethedig ai peidio.
Adran 3 <u>Asesiad risg diogelwch o gludiant i ddysgwyr</u>	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Yn addas ar gyfer rheoliadau a fydd yn darparu manylion a fydd yn dilyn ymlaen o fwriad y Mesur ac a fydd yn caniatáu diwygiadau yn y dyfodol os bydd eu hangen. Gellir ychwanegu gwybodaeth ychwanegol drwy ddarparu canllawiau statudol	Gweithdrefn Gadarnhaol Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phob awdurdod lleol ac unrhyw berson arall a fydd yn eu tyb nhw yn briodol	Mae'n sicrhau cydbwysedd rhwng y gallu i wneud rheoliadau a/neu ddiwygiadau yn gyflym os bydd angen a rhoi i'r Cynulliad reolaeth dros lunio rheoliadau a/neu ddiwygiadau arfaethedig ai peidio.
Adran 4 <u>Hyfforddi gyrrwyr</u>	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Yn addas ar gyfer rheoliadau a fydd yn darparu manylion a fydd yn dilyn ymlaen o fwriad y Mesur ac a fydd yn caniatáu diwygiadau yn y dyfodol os bydd eu hangen a	Gweithdrefn Gadarnhaol Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phob awdurdod lleol ac unrhyw berson arall a fydd yn eu tyb nhw yn briodol	Mae'n sicrhau cydbwysedd rhwng y gallu i wneud rheoliadau a/neu ddiwygiadau yn gyflym os bydd angen a rhoi i'r Cynulliad reolaeth dros lunio rheoliadau a/neu

			gellir ychwanegu gwybodaeth yn y dyfodol at y fanyleb hyfforddi.		ddiwygiadau arfaethedig ai peidio.
Adran 5 <u>Goruchwylwyr ar gludiant i ddysgwyr</u>	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Yn addas ar gyfer rheoliadau a fydd yn darparu manylion a fydd yn dilyn ymlaen o fwriad y Mesur ac a fydd yn caniatáu diwygiadau yn y dyfodol os bydd eu hangen a gellir ychwanegu gwybodaeth yn y dyfodol at y defnydd i'w wneud o oruchwylwyr.	Gweithdrefn Gadarnhaol Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phob awdurdod lleol ac unrhyw berson arall a fydd yn eu tyb nhw yn briodol	Mae'n sicrhau cydbwysedd rhwng y gallu i wneud rheoliadau a/neu ddiwygiadau yn gyflym os bydd angen a rhoi i'r Cynulliad reolaeth dros lunio rheoliadau a/neu ddiwygiadau arfaethedig ai peidio.

6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Cynhaliwyd Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Mesur arfaethedig yn unol â Rheol Sefydlog 23.18 ac fe'i gwelir yn Adran 7.

RHAN 2 – ASESUAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

7. Opsiynau

7.1 Nod y Mesur Cynulliad hwn yw gwella delwedd cerbydau penodedig sy'n darparu cludiant i'r ysgol o ran diogelwch a'r profiadau a geir o deithio arnynt a gweithredu er mwyn sicrhau bod y safonau diogelwch yn ddigon uchel i ennyn hyder y cyhoedd a'r rhieni mewn cludiant i'r ysgol.

7.2 Dyma'r opsiynau sy'n cael eu hystyried isod:

Opsiwn 1: Gwneud dim neu wneud y lleiaf posibl

Opsiwn 2: Cyflwyno'r newidiadau hyn drwy gyfrwng dulliau nad ydynt yn golygu cyflwyno deddfwriaeth megis annog mabwysiadu arferion da a defnyddio codau ymarfer gwirfoddol.

Opsiwn 3: Cyflwyno Mesur Cynulliad a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi Rheoliad ar waith o ran safonau diogelwch cerbydau a ddefnyddir i ddarparu cludiant i ddysgwyr.

Y data y dibynnwyd arno

7.3 Yn rhan o'r paratodau ar gyfer y tebygrwydd y caiff deddfwriaeth ei llunio yn y maes hwn comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Uned Ddata Llywodraeth Leol i gasglu ystod o ddata o bob awdurdod lleol ynghylch y math o gerbydau ysgol dan gontract a oedd yn weithredol ar 1 Medi 2009, ynghyd â'u hoedran a'u nodweddion diogelwch. Ceir crynodeb o'r data a gasglwyd ynghyd ym mis Mai 2010 yn Atodiad B.

7.4 Yn ogystal, cysylltwyd ag awdurdodau lleol, consortia trafniadaeth rhanbarthol, gweithredwyr bysiau a chynrychiolwyr o'r diwydiant ynghylch y paratodau ar gyfer y gwerthusiad rheoleiddiol. Cafwyd ganddynt y costau gros o osod nodweddion diogelwch gwahanol ar gerbydau penodedig sy'n darparu cludiant i'r ysgol. Hoffai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu a derbynia'r cyfrifoldeb am unrhyw amryfusedd wrth gyflwyno a defnyddio'r data hyn.

7.5 Bydd yr asesiad hwn o'r effaith yn datgelu ar bwy y bydd y cynigion hyn yn effeithio, bydd yn rhoi disgrifiad o'r costau a'r manteision, a bydd yn mesur ac yn pennu gwerth yr holl effeithiau o safbwynt ariannol cyn belled ag y bo modd.

7.6 Yn unol â'r hyn a gynigir, byddai'r Mesur yn galluogi i reoliadau manwl gael eu gwneud yn ddiweddarach a bydd yn ofynnol cynnal asesiad effaith ac ymgynghoriad ar wahân ar gyfer pob set o Reoliadau a gynigir o dan y Mesur. Bydd hyn yn cynnwys prawf penodol o'r effaith ar gwmnïau bach. Dim ond ar yr adeg honno y bydd modd pennu gwerth ariannol yr holl gostau a'r manteision gan y bydd y rheoliadau yn nodi:

- y safonau diogelwch manwl a fydd yn gymwys i gerbydau cludiant i ddysgwyr;
- yr amserlen ar gyfer rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith;
- y cosbau penodol a'r drefn orfodi a fydd ynghlwm wrth bob darpariaeth.

7.7 Bydd hyn oll, a chymryd bod popeth yn gyfartal, yn galluogi i'r Mesur arfaethedig gael ei gyflwyno yn ystod tymor y Cynulliad hwn.

Opsiwn 1: Gwneud dim yng Nghymru

7.8 Y safonau diogelwch cyfredol ar gyfer bysiau a ddefnyddir i ddarparu cludiant penodedig i'r ysgol yw'r rheini sy'n gymwys i Gerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus. Comisiynydd Traffig Cymru, a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, sy'n gyfrifol am drwyddedu cerbydau gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Prif swyddogaethau'r Comisiynydd mewn perthynas â cherbydau gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yw:

- trwyddedu gweithredwyr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus;
- cofrestru gwasanaethau bysiau lleol;
- cymryd camau rheoleiddiol yn erbyn deiliaid trwyddedau nad ydynt yn cydymffurfio;
- penderfynu ynghylch ceisiadau sy'n cael eu herio lle bo gwrthwynebiad ynghylch diogelwch ar y ffyrdd a/neu ar sail amgylcheddol;
- ystyried ymddygiad ac addasrwydd gyrwyr sy'n meddu ar drwyddedau gyrru cerbydau cludo teithwyr neu'n sy'n gwneud cais amdanynt; a
- gwrando ar geisiadau i ddychwelyd cerbydau sy'n cael eu cadw o dan y rheoliadau atafaelu.

7.9 Mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i bobl sy'n gwneud cais am drwydded a deiliaid trwyddedau fedru diwallu'r gofynion o ran enw da, sefyllfa ariannol a chymhwysedd proffesiynol ac i wneud trefniadau priodol er mwyn:

- ufuddhau i ddeddfau sy'n ymwneud â gyrru a gweithredu cerbydau;
- ufuddhau i'r rheolau ynghylch oriau gyrwyr a thacograffau ac er mwyn sicrhau y cedwir y cofnodion cywir;
- sicrhau nad oes gormod o deithwyr ar y cerbydau;
- sicrhau y cedwir y cerbydau mewn cyflwr da a'u gwasanaethu'n rheolaidd;
- sicrhau bod gyrwyr yn cofnodi pob nam ac yn mynd ati i'w trin; a
- sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw.

7.10 Mae llawer o swyddogaethau beunyddiol y Comisiynydd Traffig wedi'u dirprwyo i'r Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr (VOSA). Mae gweithredwr bysiau sydd newydd ei drwyddedu yn cael ei archwilio gan VOSA fel gweithredwr newydd a rhaid i'r cerbydau gael eu profi'n flynyddol. Trwy gynnal archwiliadau ar hap wrth ymyl y ffordd bydd modd i VOSA archwilio cyflwr mecanyddol cerbydau a chofnodion tacograff y gyrwyr.

7.11 Mae'r Comisiynwyr Traffig hefyd yn cyfrannu at benderfynu a yw'r rhai sy'n gwneud cais am drwydded i yrru cerbydau cludo teithwyr, neu'r rheini sydd wedi'u trwyddedu eisoes, yn gymwys i wneud hynny ar sail eu hymddygiad. Golyga hyn archwilio ymddygiad y gyrrwr mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chludiant ar y ffyrdd, er enghraifft, collfarnau am yrru'n beryglus neu'n ddiotal, yfed a gyrru, goryrru, defnyddio ffôn symudol wrth yrru. Ar gyfer gyrrwyr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus bydd ystyriaethau perthnasol yn cynnwys tramgwyddau rhywiol, anonestrwydd, gweithredoedd treisiol eu natur ac ymddygiad arall a allai fod yn berthnasol wrth benderfynu a yw person yn gymwys i ddal trwydded. Ar hyn o bryd nid oes gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud yn benodol â nodweddion diogelwch ar gerbydau cludiant i'r ysgol sy'n wahanol i'r rhai sy'n berthnasol i bob cerbyd gwasanaeth cyhoeddus.

7.12 Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn weithredol hefyd ym maes polisi a deddfwriaeth ynghylch diogelwch ar y ffyrdd. Er enghraifft, cyflwynwyd yn y DU ddeddfwriaeth wedi'i hanelu at wella diogelwch ar y ffyrdd drwy wneud defnydd mwy priodol o wregysau diogelwch ar gyfer plant o ganlyniad i Gyfarwyddeb y Comisiwn 2003/20/EC.

Opsiwn 2: Cyflwyno'r newidiadau drwy ddefnyddio dulliau nad ydynt yn golygu cyflwyno deddfwriaeth megis drwy annog mabwysiadu arferion da a defnyddio codau ymarfer gwirfoddol.

7.13 Mae paragraffau 3.12 i 3.14 o'r Memorandwm Esboniadol uchod yn amlinellu'r camau a gymerodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ddiweddar i wella delwedd cerbydau penodedig sy'n darparu cludiant i'r ysgol o ran diogelwch a'r profiadau a geir o deithio arnynt. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyno canllawiau anstatudol ynghylch nodweddion diogelwch cerbydau penodedig sy'n darparu cludiant i'r ysgol, sef rhan 6 *Canllawiau Gweithredol ynghylch Teithio gan Ddysgwyr* (Ebrill 2009) ac *Arweiniad ynghylch Asesiadau Risg Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol* ar gyfer Cymru gyfan ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru (Tachwedd 2009).

7.14 Mae swm o £3m dros gyfnod o dair blynedd wedi'i roi i awdurdodau lleol a chonsortia trafniadaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i dreialu prosiectau arloesol ym maes cludiant i'r ysgol, gan gynnwys diogelwch ac effeithlonrwydd adnoddau. Mae'r Arweiniad ynghylch Asesiadau Risg Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol, ymhlith cyhoeddiadau eraill, yn llwyddiant mawr.

7.15 Fodd bynnag, fel y nodir yn adrannau 7.20 i 7.21 isod, mae defnyddio dulliau nad ydynt yn ddibynnol ar ddeddfwriaeth wrth weithredu yn y maes wedi methu â sicrhau cysondeb o ran safonau diogelwch ar fysiau ysgol ledled Cymru. Er y parheir i gymryd camau i annog a lledaenu arferion gorau drwy'r prosiectau peilot y tynnwyd sylw atynt yn adran 3.13(iv), mae angen dull penodol o weithredu er mwyn sicrhau cysondeb o ran safonau ledled Cymru.

Opsiwn 3: Cyflwyno Mesur Cynulliad

7.16 Fel y disgrifir yn Adran 1 o'r Memorandwm Esboniadol.

Trafodaeth

7.17 Mae diogelwch trafndiaeth gyhoeddus ac yn arbennig cludiant i'r ysgol yn dda o'u cymharu â cheir preifat neu gerdded a beicio. Teithio ar fws, coets a bws mini (i'r ysgol a gwasanaeth cyhoeddus) yw'r ffyrdd mwyaf diogel o deithio i'r ysgol gyda risg o 1:13,340 y caiff unigolyn ei ladd neu ei anafu'n ddifrifol. Mae teithio mewn car (1:7,754) ychydig yn llai diogel mewn cymhariaeth ac mae'r cyfraddau damweiniau ar gyfer beicio (1:250) a cherdded (1:700) gryn dipyn yn uwch (yn seiliedig ar gyfartaledd o 420 o deithiau'r flwyddyn am bob disgybl dros gyfnod o 12 mlynedd o deithio i'r ysgol *S, Thornthwaite Local Transport Today 500, Awst 2008*).

Anafiadau ymhlith disgyblion ysgol¹ ar y daith i'r ysgol neu yn ôl adref: Cymru: 2001 i 2009

	Lladdwyd	Anafwyd yn ddifrifol	Niferoedd Mân anafiadau
2001	0	0	97
2002	1	3	130
2003	1	0	25
2004	0	2	65
2005	1	2	51
2006	0	0	61
2007	0	0	17
2008	0	0	11
2009	0	0	18


Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru

7.18 Er mor gadarnhaol fu diogelwch cludiant i'r ysgol bu galw yn gyson am godi safonau diogelwch hyd yn uwch. Mae'r rhesymau am y galw am safonau diogelwch uwch ar gludiant i'r ysgol yn cynnwys y canlynol:

- i) Mae plant yn dal i fod yn un o'r grwpiau mwyaf agored i niwed o blith holl ddefnyddwyr y ffyrdd (ffigur 1) ac felly mae angen safonau uwch o ddiogelwch arnynt nag oedolion. Mae hyn yn arbennig o wir am blant iau sy'n llai abl o weld ac asesu peryglon ac ymateb yn briodol. Yn ogystal, mae dylunio cyfarpar diogelwch megis gwregysau diogelwch ar sail maint yn ystyriaethau perthnasol.

¹ Plant 0-15 oed
GPM-21-EM-S1

Ffigur 1 Cyfradd anafiadau ymhlith cerddwyr: Cymru, 1991 i 2008



Cyfradd am bob 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer y gr• p oedran perthnasol

80 neu drosodd

- ii) Mae damweiniau bysiau (yn arbennig cerbydau y gellir eu hadnabod yn hawdd) yn achosi lefelau uchel o bryder ymhlith y cyhoedd. Pan fydd damwain bws yn digwydd bydd nifer y bobl a fydd yn rhan o'r ddamwain yn tueddu i fod yn uwch, tra bydd nifer y bobl a fydd yn rhan o ddamwain car yn tueddu, ar gyfartaledd, i fod yn llai ac yn fwy gwasgaredig dros gyfnod o amser. Mae'r lefel uwch o gofnodi ar ddamweiniau ar gludiant i'r ysgol a'r tebygrwydd bod lefel is o gofnodi ar ddamweiniau sy'n cynnwys ceir, cerdded neu feicio ar y daith i'r ysgol neu yn ôl adref (lle mae'n bosibl na chaiff mân ddamweiniau eu cofnodi o gwbl neu lle na fydd damweiniau mwy difrifol yn cael eu cofnodi fel rhai a ddigwyddodd ar y daith i'r ysgol neu yn ôl adref) yn cymhlethu'r sefyllfa ymhellach.
- iii) Mae rhieni a phlant yn aml yn disgwyl gweld bod nodweddion diogelwch tebyg i'r rhai sydd mewn ceir wedi'u gosod ar fysiau, er enghraifft sedd benodedig ar gyfer pob teithiwr a gwregys diogelwch ar bob sedd. O safbwynt diogelwch, er bod gwregysau diogelwch ar seddau bysiau neu goetsys yn llai arwyddocaol o ran atal anaf difrifol gan fod y grymoedd ar deithwyr yn llai pwerus nag mewn car, tybir bod gwregysau diogelwch yn bwysig o ran annog disgyblion i ymddwyn yn dda ar y daith rhwng yr ysgol a'r cartref ac o ran rhoi sicrwydd i rieni ynghylch diogelwch y plant.

- iv) Gall agweddau tuag at lefelau derbyniol o risg wahaniaethu rhwng arbenigwyr a'r cyhoedd, yn arbennig os yw'r cyhoedd yn fwy tebygol o ddiodef o ganlyniad iddynt. Yn ogystal â hynny, mae pobl yn tueddu i bryderu mwy os teimlant nad oes ganddynt reolaeth dros y risg dan sylw a gall hyn esbonio pam y mae rhai rhieni yn teimlo bod gyrru eu plant i'r ysgol yn fwy diogel pan fo'r canrannau yn dangos bod gwneud hynny, mewn gwirionedd, yn llai diogel na theithio ar fws.
- v) Ar adeg pan fo defnyddio mwy o gludiant ar y cyd yn hanfodol i leihau tagfeydd a chyfyngu ar yr effeithiau andwyol ar yr amgylchedd, mae angen ennyn cryn dipyn o ffydd ac ymddiriedaeth mewn cludiant ar fysiau ysgol ymysg plant a rhieni. Gall hefyd helpu i sefydlu'r arfer o ddefnyddio bysiau wrth deithio yn oedolion.

7.19 Am y rhesymau a nodir uchod mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am fabwysiadu gofynion diogelwch ychwanegol ar gerbydau penodedig sy'n darparu cludiant i ddysgwyr yng Nghymru. Mae paragraff 3.13 o'r Memorandwm Esboniadol yn amlinellu'r camau anstatudol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd mewn partneriaeth â'i rhanddeiliaid i hyrwyddo cysondeb ynghylch defnyddio nodweddion diogelwch ychwanegol ar fysiau ysgol. Mae llawer o awdurdodau lleol wedi cynnwys gosod gwregysau diogelwch a nodweddion diogelwch eraill yn rhan o amodau eu contract ar gyfer eu gwasanaethau cludiant i'r ysgol. Fodd bynnag, mae yna rai awdurdodau lleol sydd heb wneud hynny. Er enghraifft, yn ôl data a gasglwyd gan Uned Ddata Llywodraeth Leol cofnodwyd ar gyfer 1 Medi 2009 o blith cyfanswm o 3,295 o fysiau dan gontract:

- bod gwregysau diogelwch wedi'u gosod ar 2,894 ohonynt, bod gwregysau diogelwch heb eu gosod ar 141 ohonynt ac nad oedd gwybodaeth i gadarnhau a oedd gwregysau diogelwch wedi'u gosod ai peidio ar 260 o fysiau pellach
- bod 132 o fysiau yn fysiau deulawr ac roeddent yn cludo 8,872 o fyfyrwyr i'r ysgol.
- bod teledu cylch cyfyng wedi'i osod ar 663 o fysiau, bod teledu cylch cyfyng heb ei osod ar 1,417 ohonynt ac nad oedd gwybodaeth ar gael ar gyfer 1,215 o fysiau pellach.

7.20 Mae'r rhesymau pam nad yw mynd ati'n wirfoddol i ddarparu nodweddion diogelwch ychwanegol yn llwyddo i sicrhau cysondeb yn ddyrys ac yn amrywiol. Ymhlith y rhesymau a nodwyd y mae'r pwysau ariannol cynyddol ar awdurdodau lleol a phroblemau yn ymwneud â'r anhawster o uwchraddio rhai cerbydau h•n. Yn ogystal, mae'n ymddangos yn aml fod natur anstatudol y cyngor a roddir yn effeithio ar yr ysgogiad i roi argymhellion ar waith, yn arbennig o ystyried y cyfyngiadau cynyddol ar adnoddau a'r amryw flaenoriaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd. Mae rhywfaint o'r cyngor anstatudol sy'n cael ei roi yn cael ei herio hefyd. Er enghraifft, mae

nifer o awdurdodau lleol yn darparu bysiau deulawr penodedig ynghyd â theledu cylch cyfyng ar gyfer y siwrnai rhwng yr ysgol a'r cartref a thystiant fod ymddygiad y disgyblion yn well a bod y lefelau diogelwch yn uwch o ganlyniad.

7.21 O'i gyferbynnu â'r canllawiau gwirfoddol, bu statws statudol y Cod Ymddygiad wrth Deithio, sy'n pennu'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan ddysgwyr sy'n teithio i'r ysgol ac oddi yno, yn fodd i sicrhau cysondeb wrth ei fabwysiadu ledled Cymru o'r dechrau'n deg. Mae natur statudol y Cod a'r Canllawiau cysylltiedig hefyd wedi sicrhau bod pob awdurdod lleol yn ymwneud mwy â'r broses o hyrwyddo'r Cod gan sicrhau bod y prif negeseuon yn cael eu lledaenu ymhlith dysgwyr ac athrawon.

7.22 Hoffai Llywodraeth Cynulliad Cymru gydnabod hefyd yr ymdrechion teilwng a'r gwelliannau a wnaed gan nifer o awdurdodau lleol, consortia trafnidiaeth a gweithredwyr bysiau yn gwella nodweddion diogelwch y cerbydau ysgol.

7.23 O bwysu a mesur y cyfan felly, daw Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r casgliad mai deddfwriaeth yw'r unig opsiwn realistig o hyrwyddo cysondeb wrth sicrhau nodweddion diogelwch ychwanegol ar fysiau ysgol dan gontract yng Nghymru.

8. Costau a manteision

8.1 Amlinellir isod lefel uchel y costau a'r manteision a ddaw o'r rheoliadau a wneir o dan y Mesur arfaethedig.

Opsiwn 1: Gwneud dim neu wneud y lleiaf posibl

Costau

8.2 Telir costau trefn reoleiddiol y DU gan Lywodraeth y DU. Nid oes felly unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm wrth yr opsiwn hwn i'w talu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

8.3 Manteision y dull hwn yw'r cyfraddau damweiniau isel sy'n gysylltiedig â theithio ar fws a nodir uchod. Fodd bynnag, am y rhesymau a nodir ym mharagraff 7.16 uchod, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am hybu safonau diogelwch uwch ar gludiant i'r ysgol er mwyn gwella delwedd cerbydau penodedig sy'n darparu cludiant i'r ysgol o ran diogelwch a'r profiadau a geir o deithio arnynt a gweithredu er mwyn sicrhau bod y safonau diogelwch yn ddigon uchel i ennyn hyder y cyhoedd a'r rhieni mewn cludiant i'r ysgol. Nid yw gwneud dim na gwneud y lleiaf posibl felly yn cyflawni'r amcan a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Opsiwn 2: Cyflwyno'r newidiadau drwy ddefnyddio dulliau nad ydynt yn golygu cyflwyno deddfwriaeth megis drwy annog mabwysiadu arferion da a defnyddio codau ymarfer gwirfoddol.

8.4 Hyd yma mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi annog awdurdodau lleol i benderfynu a ddylai gosod nodweddion diogelwch gael ei gynnwys yn rhan o amodau eu contract. Amcangyfrifir bod cost flynyddol gweinyddu'r dull gwirfoddol hwn o fynd ati yn £15,000 i Lywodraeth Cynulliad Cymru o ran amser staff a £110,000 pellach o ran costau gweinyddu i awdurdodau lleol.

8.5 Fodd bynnag, fel y nodir yn Adran 7, mae mynd ati'n wirfoddol wedi methu â sicrhau cysondeb wrth gyflwyno safonau diogelwch ar fysiau ysgol ledled Cymru.

Opsiwn 3: Cyflwyno Mesur Cynulliad

8.6 Nodir yn y tabl isod amcangyfrif o'r costau. (Ceir manylion pellach yn Atodiad C sy'n nodi sut y cafodd y costau eu cyfrifo.) Dylid nodi bod ystod yr amcangyfrif o'r costau ar gyfer rhai categorïau yn adlewyrchu ffactorau sy'n wybyddus ac yn anwybyddus. Er enghraifft, mae cofnodion yr Arolwg Teithio i'r Ysgol yn dangos nad oes gan 141 o fysiau wregysau diogelwch ac nad oes gwybodaeth ar gyfer 260 o fysiau pellach. Caiff yr amcangyfrif o'r costau felly ei gyfrifo ar sail gosod gwregysau diogelwch mewn 141 o fysiau (sef oddeutu £1.5m) a'r rhagdybiaeth y byddai angen gosod gwregysau diogelwch ar ganran uchel o'r fysiau nad oes gwybodaeth ar eu cyfer (tua £4.5m).

Costau gwahanol elfennau'r Opsiynau	
Costau anghylchol	
Gosod gwregysau diogelwch ar fflyd o gerbydau sy'n darparu cludiant i ddysgwyr	Rhwng £1.5m a £4.5m*
Gosod teledu cylch cyfyng ar fflyd o gerbydau sy'n darparu cludiant i ddysgwyr	Rhwng £2.2m a £4m***
Costau cylchol y flwyddyn	
Darparu bysiau unllawr yn lle'r fflyd o fysiau deulawr	Tua £2.8m
Defnyddio cerbydau sydd wedi'u gweithgynhyrchu ar ôl 2001 yn unig	Rhwng £10.4 a £20.2m
Darparu hebryngwyr	Rhwng £9.8m a £15m***
Costau cynnal a chadw teledu cylch cyfyng	Tua £0.3m***
Y gost o weinyddu asesiadau risg diogelwch gan awdurdodau lleol	Tua £0.03m***

Pennu'r fanyleb ar gyfer 'Bysiau melyn'	
Costau anghylchol	
Gosod gwregysau diogelwch ar fflyd o gerbydau sy'n darparu cludiant i ddysgwyr	Rhwng £1.5m a £4.5m*
Gosod teledu cylch cyfyng ar fflyd o gerbydau sy'n darparu cludiant i ddysgwyr	Rhwng £2.2m a £4m***
	<i>Tua £3.7m - £8.5m</i>
Costau cylchol y flwyddyn	
Darparu bysiau unllawr yn lle'r fflyd o fysiau deulawr	Tua £2.8m
Darparu hebryngwyr	Rhwng £9.8m a £15.0m***
Costau cynnal a chadw teledu cylch cyfyng	Tua £0.3m***
	<i>Tua £12.9m - £18.1m</i>

8.7 Yn ogystal â'r costau a amcangyfrifir uchod mae'r costau cudd canlynol yn debygol o effeithio ar yr amcangyfrifon terfynol:

*Mae'n bosibl na fydd rhai bysiau yn addas i gael gwregysau diogelwch oherwydd cryfder llawr y cerbydau, yn enwedig bysiau h•n. Nid oes

gennym ar hyn o bryd unrhyw ddata uniongyrchol ar nifer y bysiau nad ydynt yn addas i'w hailosod ond dengys ffigurau Uned Ddata Llywodraeth Leol bod oddeutu traean o'r fflyd wedi'i gofrestru yn y DU cyn 1 Hydref 2001 a thraean ar ôl 1 Hydref 2001. Awgryma hyn y gall fod yna nifer sylweddol o fysiau sy'n gweithio ar gontractau ysgol nad ydynt yn addas i gael gwregysau diogelwch wedi'u gosod ynddynt.

** Wrth gyfrifo costau terfynol gwahardd defnyddio bysiau deulawr bydd hi'n bwysig hefyd asesu safleoedd ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn addas i ymdopi â'r cynnydd yn nifer y bysiau.

*** Mae'r costau uchod wedi'u cyfrifo fel eitemau cost annibynnol. Petai'r camau a nodwyd â *** yn cael eu mabwysiadu ar y cyd â gwaredu'r fflyd cerbydau deulawr, yna byddai'r cerbydau unllawr ychwanegol y byddai eu hangen yn arwain at gostau uwch na'r amcangyfrifon a nodir.

Ni fyddai gweithredwyr bysiau yn gallu dibynnu ar ddefnyddio bysiau gwasanaeth cyhoeddus i ddarparu cludiant i ddysgwyr oherwydd mae'n bosibl na fyddant yn cydymffurfio mwyach â'r rheoliadau. Gallai hyn arwain at gostau cyffredinol uwch na'r hyn a amcangyfrifwyd ar gyfer pob darpariaeth unigol. Yn ogystal, mae rhai awdurdodau lleol wedi buddsoddi'n benodol mewn fflyd o fysiau deulawr i ddarparu cludiant i'r ysgol a allai gael eu gwahardd gan reoliad i'w gyflwyno yn y dyfodol.

8.8 Fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu isod (adrannau 8.22 i 8.25), y bwriad yw y caiff rheoliadau eu cyflwyno yn raddol gyda'r gofynion yn dod i rym at ei gilydd wrth i'r cytundebau gael eu hadnewyddu. Bydd hyn yn gymorth i reoli a rhannu'r costau dros nifer o flynyddoedd ariannol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu talu'r costau a fydd yn gysylltiedig â'r rheoliadau a wneir o dan y Mesur hwn, yn ddibynnol ar yr adnoddau a fydd ar gael. Ar y sail yr eir ati i weithredu yn unol â'r hyn a gynigir, disgwylir i'r costau gynyddu o 2012 i 2013 yn bennaf. Caiff unrhyw opsiynau na ellir eu fforddio o fewn y cyllidebau presennol eu diystyru.

Cosbi a gorfodi

8.9 Yn ogystal, mae'r Mesur yn darparu ar gyfer dyletswyddau i'w hysgwyddo gan awdurdodau lleol a chyfundrefn o gosbau sifil a throseddol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol o'r farn na fyddai safonau cenedlaethol o'r fath yn effeithiol heb gamau gorfodi digonol. Amcangyfrifir mai'r costau blynyddol o ddarparu ar gyfer cymryd camau gorfodi a thribiwnlys apelio fel y nodir yn Atodiad C, adran 9, fyddai:

Costau blynyddol - Gorfodi	£160,000
Tribiwnlys	£85,000

8.10 Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol ysgwyddo costau yswiriant uwch o ganlyniad i rwymedigaethau sifil a throseddol uwch.

8.11 Bydd yr uchod yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau cysondeb wrth gyflwyno safonau diogelwch ar gyfer cerbydau sy'n darparu cludiant i'r ysgol dan gontract yng Nghymru ac yn helpu i roi sicrwydd i rieni ynghylch diogelwch y daith ar y bws i'r ysgol. Yn ogystal â meithrin mwy o ymddiriedaeth a hyder yn y gwasanaethau cludiant i'r ysgol mae'n debyg y bydd nifer o fanteision anuniongyrchol yn amrywio o lai o dagfeydd ar y ffyrdd, llai o deithio mewn car i'r ysgol, llai o allyriadau CO2 a llai o anafiadau ar y ffordd.

8.12 Gall gwella ansawdd cludiant i'r ysgol a'r profiad a geir o deithio ar y cerbydau hynny arwain at ddeilliannau addysgol a chymdeithasol a fydd o fudd i blant a phobl ifanc.

8.13 Gallai cyflwyno rhai mesurau diogelwch penodol megis teledu cylch cyfyng arwain hefyd at leihau'r amser y bydd staff yn ei dreulio yn ymchwilio i ddigwyddiadau.

8.14 Caiff Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn ei gynnal i gefnogi is-ddeddfwriaeth arfaethedig a wneir yn y dyfodol o dan y Mesur hwn ac eir ati i fesur a phennu gwerth yr holl gostau a manteision ar yr adeg honno.

8.15 Amcangyfrifir bod costau gweinyddol gweithredu'r Mesur tua £70,000 yn 2010-11 ac fe'u telir o gyllidebau Costau Rhedeg Adrannol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Risgiau

8.16 Mae nifer o risgiau yn gysylltiedig â gwneud rheoliadau o dan y Mesur hwn:

- (i) Y risg posibl o gynyddu'r costau a'r cymhlethdod o ddarparu cludiant i'r ysgol i awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau fel ei gilydd.
- (ii) Y risg cysylltiedig o ostyngiad yn y gwasanaethau penodedig sy'n darparu cludiant i'r ysgol gan awdurdodau lleol gan mai'r gofyniad statudol yw darparu cludiant am ddim i'r ysgol. Gallai hyn gael ei gyflawni fodd bynnag drwy alluogi i ragor o blant deithio ar fysiau gwasanaeth cyhoeddus masnachol.
- (iii) Y risg cysylltiedig y gallai rhai gweithredwyr bysiau dynnu'n ôl o'r farchnad, gan arwain at broblemau ynghylch nifer y lleoedd sydd ar gael, yn enwedig mewn ardaloedd lle nad oes llawer o weithredwyr ar gael.
- (iv) Petai'r risgiau uchod yn cael eu gwireddu yna gallai hynny arwain at fwy o dagfeydd traffig wrth i ragor o rieni ddewis mynd â'u plant i'r ysgol mewn car.

8.17 Bwriada Llywodraeth Cynulliad Cymru reoli'r risgiau hyn drwy:

- Dalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â rheoliadau a wneir o dan y Mesur hwn, yn amodol ar yr adnoddau sydd ar gael.
- Gweithio'n agos â'r prif randdeiliaid ar baratoi'r rheoliadau arfaethedig er mwyn sicrhau nad ydynt yn rhoi pwysau gweinyddol na phwysau ariannol cudd diangen ar gwmnïau bysiau nac awdurdodau lleol.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

8.18 Tra bo'r fframwaith rheoleiddiol cyfredol yn yr UE a'r DU yn sicrhau mai teithio ar fws yw un o'r ffurfiau mwyaf diogel ar gludiant, cred Llywodraeth Cynulliad Cymru bod angen pennu gofynion diogelwch ychwanegol ynghylch gwregysau diogelwch, seddau etc er mwyn gwella delwedd cerbydau penodedig sy'n darparu cludiant i'r ysgol o ran diogelwch a'r profiadau a geir o deithio arnynt a gweithredu er mwyn sicrhau bod y safonau diogelwch yn ddigon uchel i ennyn hyder y cyhoedd a'r rhieni mewn cludiant i'r ysgol.

8.19 Er gwaethaf llwyddiant yr hyn sy'n cael ei wneud yn wirfoddol mewn rhai ardaloedd mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn bod anghysondeb annerbyniol yn safonau diogelwch cludiant i ddysgwyr ledled Cymru. O ganlyniad i hynny, cred Llywodraeth Cynulliad Cymru mai deddfwriaeth yw'r unig opsiwn realistig o hyrwyddo cysondeb ynghylch safonau diogelwch ar gludiant i'r ysgol yng Nghymru.

8.20 Cydnabyddir bod y gost o safoni nodweddion diogelwch yn uchel ac na fydd modd mesur yn llawn yr holl gostau a manteision hyd nes y bydd y rheoliadau yn cael eu gwneud gan mai'r rheoliadau a fydd yn pennu: y safonau diogelwch manwl a fydd yn gymwys i gerbydau sy'n darparu cludiant i ddysgwyr; yr amserlenni ar gyfer gweithredu'r deddfwriaeth; a'r cosbau penodol a'r drefn orfodi a fydd ynghlwm wrth bob darpariaeth. Cred Llywodraeth Cynulliad Cymru fod is-ddeddfwriaeth yn gyfrwng addas i ddarparu manylion a fydd yn dilyn ymlaen o fwriad y Mesur ac y bydd hefyd yn caniatáu diwygiadau pellach os bydd eu hangen.

Cynllun gweithredu

8.21 Bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru yw talu am gostau gweithredu unrhyw reoliad yn amodol ar yr adnoddau sydd ar gael. Golyga'r pwysau mawr ar gyllidebau awdurdodau lleol a'r gostyngiad yn elw gweithredwyr bysiau yn ystod y dirwasgiad na all y naill na'r llall dalu am y costau hyn.

8.22 Golyga'r costau uchel sydd ynghlwm wrth uwchraddio'r fflyd bysiau sy'n darparu cludiant i'r ysgol na fyddai'n ddoeth nac ychwaith yn fforddiadwy ar unwaith i gyflwyno'r holl reoliadau gyda'i gilydd ar yr un pryd er mai bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y tymor hir yw deddfu yn y meysydd a amlinellir ym mharagraffau 3.17 i 3.39 uchod.

8.23 Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dechrau ar y gwaith o gyflwyno rheoliad ar ddechrau tymor nesaf y Cynulliad ynghylch y gofynion i osod gwregysau diogelwch ar bob cerbyd penodedig sy'n darparu cludiant i'r ysgol. Byddai'r rheoliad hwn yn sicrhau y byddai sedd wedi'i gwarantu ar gyfer pob plentyn gyda gwregys diogelwch triphwynt addas at bob oed ar y seddau. Byddai gosod gwregysau diogelwch ar fysiau yn gwahardd defnyddio'r consesiwn '3 disgybl yn rhannu sedd i 2' a byddai hefyd yn ei gwneud hi'n amhosibl caniatáu i deithwyr sefyll ar eu traed ar fysiau ysgol penodedig.

8.24 Er mwyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth yn y modd mwyaf cost-effeithiol posibl bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn edrych ar ystod o opsiynau i reoli costau gan gynnwys defnyddio darpariaethau trosiannol er mwyn i reoliadau ynghylch gosod gwregysau diogelwch ddod i rym wrth i'r contractau presennol ar gyfer cludiant i'r ysgol gael eu hadnewyddu.

8.25 Yn rhan o'r paratodau ar gyfer llunio rheoliad ar osod gwregysau diogelwch caiff y dadansoddiad canlynol ei wneud:

- Asesiad manwl iawn o'r effaith a fydd yn mesur yn llawn gostau a manteision y rheoliad.
- Prawf o'r effaith ar gwmnïau bach a fydd yn asesu effeithiau tebygol rheoliad ar is-sector y bysiau penodedig sy'n darparu cludiant i'r ysgol
- Prawf o'r effaith ar gydraddoldeb.
- Ymgynghoriad cyhoeddus llawn gan gynnwys cysylltu â gweithredwyr bysiau, awdurdodau lleol, plant, rhieni ac ysgolion.
- Bydd swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn gweithio'n agos â CLILC a Chyddfederasiwn Cludiant Teithwyr ar baratoi'r rheoliadau er mwyn sicrhau nad ydynt yn rhoi pwysau gweinyddol na phwysau ariannol cudd diangen ar weithredwyr bysiau nac awdurdodau lleol.
- Rhoi gwybod i'r Comisiwn Ewropeaidd, ar ffurf drafft, ynghylch y rheoliadau technegol arfaethedig a chydymffurfio â chyfnod segur o dri mis cyn y caiff y rheoliad ei wneud neu cyn y daw i rym (Cyfarwyddeb 98/34/EC (fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 98/48/EC)).

8.26 Bydd y rheoliad yn destun gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol gan y Cynulliad.

8.27 Bydd dadansoddiad pellach hefyd yn hyrwyddo'r broses o gyflwyno deddfwriaeth bellach ar nodweddion diogelwch cerbydau ysgol penodedig mewn da bryd ac mewn modd all gael ei gostio'n llawn a'i gefnogi'n ariannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Caiff unrhyw opsiynau na ellir eu fforddio o fewn y cyllidebau presennol eu diystyru.

9. Asesu'r gystadleuaeth

Mae prawf ar gyfer hidlo'r gystadleuaeth wedi'i gynnal gan y bydd rheoliad a wneir o ganlyniad i'r Mesur arfaethedig yn effeithio ar weithredwyr bysiau fel is-sector o'r cerbydau gwasanaeth cyhoeddus.

Prawf hidlo'r gystadleuaeth	
Cwestiwn	Ateb ie neu na
C1: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a yw unrhyw gwmni yn meddu ar fwy na 10% o gyfran y farchnad?	Na
C2: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a yw unrhyw gwmni yn meddu ar fwy na 20% o gyfran y farchnad?	Na
C3: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a yw'r tri chwmni mwyaf, gyda'i gilydd, yn meddu ar o leiaf 50% o gyfran y farchnad?	Na
C4: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio lawer yn fwy ar rai cwmnïau na'i gilydd?	Ie
C5: Ydy'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau?	Ie
C6: A fyddai'r rheoliad newydd yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hysgwyddo?	Na
C7: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hysgwyddo?	Na
C8: A yw'r sector yn cael ei nodweddu gan newid technolegol cyflym?	Na
C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i bennu pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu nwyddau?	Ie

Asesiad cychwynnol o effaith rheoliad a wneir o dan y Mesur arfaethedig ar y gweithredwyr bysiau

9.1 Fel y mae prawf hidlo'r gystadleuaeth yn ei ddangos, mae posibilrwydd y bydd effaith rheoliadau a wneir o ganlyniad i'r Mesur hwn ar gwmnïau yng Nghymru yn amrywio. Mae'n debyg mai dyma'r achos ar gyfer cwmnïau bach. Mae'n bosibl y bydd cwmnïau bach yn ei chael hi'n anodd cystadlu am gontractau ysgol o ystyried y safonau diogelwch gofynnol uwch a gallai hyn, yn ei dro, arwain at lai o gwmnïau yn cystadlu am gontractau ar gyfer ysgolion.

9.2 Yn 2009 roedd 11,000 o fysiau, bysiau mini a choetsys wedi'u trwyddedu yng Nghymru (Ystadegau Trwyddedu Cerbydau 2009, yr Adran Drafnidiaeth). Mae natur wledig rhan helaeth o Gymru yn golygu bod llawer o gwmnïau annibynnol bach lleol ar draws y wlad gyda chwmnïau bysiau mawr wedi'u lleoli yn Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd, Cymoedd y De a'r Gogledd. Golyga hyn fod amrywiaeth mawr yn sefyllfa'r farchnad leol.

9.3 Cofnododd Uned Ddata Llywodraeth Leol fod 3,295 o fysiau yn cael eu defnyddio at ddibenion cludiant dan gontract i ddysgwyr ar 1 Medi 2009. Amcangyfrifa swyddogion fod gan oddeutu 100-150 o gwmnïau gontractau cludiant i ddysgwyr yng Nghymru a bod y mwyafrif ohonynt yn gwmnïau annibynnol lleol bach. Yn ogystal â bysiau sy'n eiddo i gwmnïau bysiau mae rhai awdurdodau lleol hefyd yn berchen ar eu bysiau ysgol eu hunain ac yn eu rhedeg eu hunain.

9.4 Mewn tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Comisiwn Cystadlu, mae maint yr elw a gafodd gweithredwyr bysiau yng Nghymru yn y gorffennol yn is na'r hyn a gafodd gweithredwyr yn Lloegr ac yn y pedair blynedd diwethaf gwelwyd eu helw yn gostwng gan waethygu ymhellach yn ystod dwy flynedd diwethaf y dirwasgiad².

9.5 O ystyried yr effaith sylweddol y gallai rheoleiddio ei chael ar gwmnïau bach cynigir y dylid cynnal prawf effaith ar gwmnïau bach mewn perthynas ag unrhyw reoliadau yn y dyfodol. Caiff y dogfennau hyn eu cyhoeddi yn rhan o'r Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol a byddant yn rhan o'r broses o gynnal ymgynghoriad cyhoeddus.

² The TAS Partnership *Competition in the UK Bus Industry* Ebrill 2010
GPM-21-EM-S1

10. Adolygu ar ôl gweithredu

O ystyried yr effaith fawr a gaiff y polisi hwn cynigir y dylai'r Mesur gael ei adolygu'n drylwyr yn 2015.

Nodiadau Esboniadol

Cyflwyniad

1. Mae'r nodiadau esboniadol hyn yn ymwneud â'r Mesur Arfaethedig ynghylch Diogelwch ar Gludiant Dysgwyr (Cymru) ("y Mesur Arfaethedig" neu "y Mesur" fel y'i cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 20 Medi 2010.
2. Mae Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yn Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi llunio'r nodiadau i helpu'r sawl sy'n darllen y Mesur Arfaethedig ac i helpu'r drafodaeth arno drwy roi gwybodaeth amdano. Nid ydynt yn rhan o'r Mesur Cymru nid ydynt wedi cael eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
3. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Mesur Arfaethedig. Nid ydynt yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Mesur ac ni fwriedir iddynt fod felly. Pan fydd adran neu ran o adran yn ei hesbonio ei hun, ni roddir esboniad na sylw pellach.
4. Daw darpariaethau craidd y Mesur o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ar sail eu bod yn ymwneud â mater 5.10 o Ran 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf") (gweler adran 94(4) o'r Ddeddf ac Atodlen 5 fel y mae wedi ei diwygio³). Mae Mater 5.10 yn ymwneud â threfniadau i bobl sy'n cael addysg gynradd neu uwchradd neu hyfforddiant (a mathau eraill o addysg) i deithio i'r mannau lle y maent yn cael yr addysg neu'r hyfforddiant ac oddi yno. Mae'r Mesur hefyd yn cynnwys darpariaeth i orfodi'r darpariaethau craidd o ddaw o fewn cymhwysedd y Cynulliad o dan adran 94(5) o'r Ddeddf.

Trosolwg o'r Mesur

Y diben a'r dull drafftio

5. Diben cyffredinol y Mesur yw darparu fframwaith i reoleiddio cludiant i ddysgwyr er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn ddiogel. Drwy ddiwygio Mesur

³ Mae cyfieithiad er gwybodaeth o destun Atodlen 5 wedi ei diwygio ac wedi ei gydgrynhoi yn http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance/bus-legislation-guidance-documents/legislation_fields/schedule-5.htm. Fel arall, gweler y diwygiadau a wnaed gan erthygl 3(2) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trosi Pwerau Fframwaith) 2007 (OS 2007/910), erthygl 292 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg a Hyfforddiant) 2008 (SI 2008/1036), erthygl 6 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008 (OS 2008/3132), erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Eithriadau i Faterion) 2009 (OS 2009/3006), erthygl 3(3) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Amgylchedd) 2010 (OS 2010/248) ac erthygl 3 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trafnidiaeth) 2010 (OS 2010/1208).

Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ("Mesur 2008") y mae'r Mesur yn cyflawni hyn.
Cymhwyso

6. Nid yw darpariaethau'r Mesur a'r rheoliadau a wneir odano yn gymwys ond i gludiant -

- a ddarperir neu a sicrheir fel arall gan awdurdod lleol Cymreig neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru, ac
- a ddarperir i sicrhau bod plant yn mynychu'r ⁴ manau⁵ lle y maent yn cael addysg neu hyfforddiant.

7. Bwriedir i'r Mesur fod yn gymwys i gludiant 'rhwyng y cartref a'r ysgol', felly nid yw ei ddarpariaethau yn gymwys i gludiant a ddarperir at ddibenion teithio yn ystod y dydd rhwyng y manau lle y mae plant yn cael addysg neu hyfforddiant.

8. Mae'r darpariaethau yn gymwys i drafnidiaeth a ddarperir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol neu gyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ac i gludiant a ddarperir gan eraill (e.e. gweithredwyr bysiau) y mae eu gwasanaethau yn cael eu prynu gan y cyrrff hynny. Nid ydynt yn gymwys i gludiant a ddefnyddir gan blant lle yr unig drefniant a wnaed gan yr awdurdod neu'r corff llywodraethu yw trefniant i dalu costau teithio neu lwfansau.

9. Gweler yr adran 14M newydd a fewnosodwyd ym Mesur 2008 gan adran 13 am y diffiniad o "gludiant i ddysgwyr" sy'n arwain at yr effeithiau a ddisgrifiwyd uchod.

Darpariaethau craidd

10. Mae'r Mesur yn darparu ar gyfer rheoleiddio ar y materion a ganlyn:

- y disgrifiadau o gerbydau y caniateir eu defnyddio yn gludiant i ddysgwyr (adran 1, sy'n mewnosod adran 14A newydd ym Mesur 2008);
- recordio delweddau gweledol neu sain ar gludiant i ddysgwyr (adran 2, sy'n mewnosod adran 14B newydd);
- asesiadau risg diogelwch o gludiant i ddysgwyr a ddarperir neu a sicrheir fel arall gan awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir (gweler adran 3, sy'n mewnosod adran 14C newydd);
- camau gweithredu gan awdurdodau lleol ac ysgolion i sicrhau bod gyrwyr cerbydau a ddefnyddir yn gludiant i ddysgwyr wedi cwblhau hyfforddiant addas (adran 4, sy'n mewnosod adran 14D newydd);

⁴ At ddibenion y Mesur, "plant" yw pobl nad ydynt dros yr oedran ysgol gorfodol (gweler adran 24(3) a (4) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 sy'n cymhwyso'r termau a ddiffiniwyd yn Neddf Addysg 1996 i Fesur 2008 (a'r diwygiadau iddo gan y Mesur Arfaethedig) - mae "child" yn cael ei ddiffinio yn adran 579(1) o Ddeddf 1996).

⁵ Mae hyn yn gyfyngedig i'r "manau perthnasol" a ddiffinnir yn adran 1(4) o Fesur 2008: ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach, ysgolion annibynnol a enwir mewn datganiadau o anghenion addysgol arbennig, ysgolion arbennig nas cynhelir, unedau cyfeirio disgyblion a manau eraill lle y trefnir addysg o dan adran 19(1) o Ddeddf Addysg 1996.

- darparu goruchwylwyr ar gludiant i ddysgwyr (adran 5, sy'n mewnosod adran 14E newydd).

Gorfodi

11. Dyma'r mecanweithiau gorfodi a ragwelir ar gyfer darpariaethau craidd y Mesur:

- penodi awdurdod gorfodi drwy gyfrwng rheoliadau (adran 7, sy'n mewnosod adran 14G newydd);
- pwerau mynediad ac arolygu a'r p• er i fynnu gwybodaeth (adrannau 8, 9 a 10, sy'n mewnosod adrannau 14H, 14I a 14J newydd yn y drefn honno)
- tramgwyddau troseddol (gweler adrannau 14A(1)(c), adran 14B(1)(c), 14I(7), 14(I)(5), a pharagraff 10 o Atodlen A1 newydd);
- cosbau sifil (yr Atodlen, sy'n mewnosod Atodlen A1 newydd);
- pwerau cyfarwyddo Gweinidogion Cymru ac arolygiaeth y llysoedd o rwymedigaethau cyfraith gyhoeddus awdurdodau cyhoeddus ac iddynt swyddogaethau o dan y Mesur.

12. Mewn cysylltiad â thorri rheoliadau o dan adrannau newydd 14A (disgrifiadau o gerbydau) a 14B (recordio delweddau gweledol a sain), dim ond drwy reoliadau y caniateir creu tramgwyddau troseddol a chosbau sifil. Darperir ar gyfer tramgwyddau troseddol er mwyn ategu swyddogaethau'r awdurdod gorfodi (er enghraifft, tramgwydd yw rhwystro arolygydd yn adran 14I(7)).

13. Caiff rheoliadau o dan adran 14A a 14B osod gofynion ar awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a phersonau sy'n darparu cludiant a sicrheir gan y cyrff hyn. Ystyr hyn yw bod cosbau troseddol a sifil yn bosibl os bydd unrhyw un ohonynt yn torri darpariaethau. Dim ond ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir y caiff rheoliadau o dan y darpariaethau craidd eraill osod gofynion ac ni chaniateir cymhwyso cosbau troseddol na sifil.

14. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i gyfarwyddo awdurdodau lleol neu gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir i gymryd camau gweithredu penodol pan fônt yn arfer eu swyddogaethau addysg yn afresymol neu'n methu â chydymffurfio â dyletswydd addysg (adrannau 496 a 497 o Ddeddf Addysg 1996). Mae'r pwerau hyn yn gymwys i swyddogaethau'r cyrff hyn a grëir gan y Mesur Arfaethedig o dan y cyfan o'r darpariaethau craidd. Caniateir gorfodi cyfarwyddiadau gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn gorfodi gan yr Uchel Lys. Yn ogystal, o ran rhwymedigaethau cyfraith gyhoeddus Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir sy'n codi o'r Mesur Arfaethedig, caniateir i'r llysoedd eu gorfodi ar gais am adolygiad barnwrol.

Gweithdrefnau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud rheoliadau

15. Rhoddir y pwerau i wneud rheoliadau i dan y Mesur i Weinidogion Cymru a rhaid eu gwneud ar ffurf offeryn statudol. Rhaid cyhoeddi Offerynnau Statudol yn unol â Deddf Offerynnau Statudol 1946. Mae'r holl reoliadau o dan y Mesur yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Ystyr hyn yw bod rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru eu cymeradwyo.

Adran 1 Disgrifiadau o gerbydau y caniateir eu defnyddio yn

16. Mae'r adran hon yn rhoi p• er i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol mai dim ond cerbydau o ddisgrifiadau penodol a ddefnyddir yn gludiant i ddysgwyr a ddarperir neu a sicrheir fel arall gan awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir. Caniateir gosod y rhwymedigaethau sy'n codi o'r cyfryw ddarpariaeth ar y cyrff hynny eu ar unrhyw berson sy'n darparu cludiant i ddysgwyr a sicrheir gan y cyrff hynny (e.e. gweithredydd bysiau sy'n darparu gwasanaethau o dan gontract ag awdurdod lleol).

17. Caniateir disgrifio'r cerbyd drwy gyfeirio at nodweddion diogelwch fel gwregysau diogelwch, ei oed, p'un a yw'n gerbyd unllawr neu'n gerbyd deulawr, neu ddisgrifiadau eraill o'r cerbyd drwy gyfeirio at ei wneuthuriad, cyfarpar neu nodweddion eraill.

18. Mae is-adran (1)(c) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer tramgwyddau troseddol a chosbau am dorri'r gofynion a osodir o dan yr adran hon. Mae p• er Gweinidogion Cymru i greu tramgwyddau troseddol o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r terfynau a osodir gan baragraff 2 o Ran 2 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ni fyddent yn cael defnyddio'r p• er hwn i greu unrhyw dramgwydd troseddol y gellid ei gosbi -

- ar gollfarn ddiannod, â chyfnod o garchar sy'n hwy na'r cyfnod a ragnodir neu â chosb sy'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol (£5,000 ar hyn o bryd), neu
- ar gollfarn ar ddiad, â chyfnod o garchar sy'n hwy na dwy flynedd.

19. Y cyfnod a ragnodir yw 51 o wythnosau yn achos tramgwydd diannod a 12 mis pan fo'r tramgwydd yn un neillfordd. Ond cyn i adrannau 154(1) a 281(5) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ddod i rym nid oes unrhyw gyfnod o garchar mwy na chwe mis i'w osod ar gollfarnu person o dramgwydd diannod a grëir o dan y rheoliadau neu ar gollfarn diannod o'r cyfryw dramgwydd neillfordd⁶.

Adran 2 Recordio delweddau gweledol neu sain ar gludiant i ddysgwyr

20. Mae'r adran hon yn rhoi p• er i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i drefniadau gael eu gwneud i recordio delweddau gweledol neu sain ar gludiant i ddysgwyr a gwneud darpariaethau am

⁶ Paragraff 52, Atodlen 11 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

ddefnyddio, storio a chadw delweddau gweledol neu sain. Caiff y rheoliadau bennu'r mathau o drefniadau sydd i'w gwneud. Gallent gynnwys dull y recordio neu faterion cysylltiedig fel rhoi gwybodaeth i rieni a phlant bod y cyfryw recordio yn digwydd.

21. Caiff rheoliadau o dan yr adran hon roi swyddogaethau i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a phersonau sy'n darparu cludiant i ddysgwyr a sicrheir gan gorff perthnasol.

22. Diben is-adran (3) o adran 14B newydd yw ei gwneud yn glir nad yw'r adran hon yn awdurdodi recordio cudd ac na all wneud recordio cudd yn ofynnol.

23. Caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer tramgwyddau a chosbau troseddol ac mae'r cyfryw ddarpariaeth yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a grybwyllwyd ym mharagraffau 18 a 19 uchod.

Adran 3 Asesiad risg diogelwch o gludiant i ddysgwyr

24. Mae'r adran hon yn rhoi p• er i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff perthnasol gynnal asesiadau risg diogelwch ar y cludiant i ddysgwyr y mae yn ei ddarparu. Caiff hyn gynnwys osod natur yr asesiad, cyhoeddi adroddiadau, dull y cyhoeddi neu amllder yr asesiadau.

Adran 4 Hyfforddi gyrwyr

25. Mae'r adran hon yn rhoi p• er i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir sy'n darparu cludiant i ddysgwyr i sicrhau bod gyrwyr y cerbydau hynny wedi cwblhau hyfforddiant addas am ddiogelwch ar gludiant i ddysgwyr a gweithio gyda phlant. Caiff y rheoliadau ragnodi'r mathau o hyfforddiant y mae angen eu dilyn a phennu safonau y mae'n rhaid eu cyrraedd.

26. Mae is-adran (2) o adran 14D newydd yn caniatáu i'r hyfforddiant a safonau gael eu rhagnodi drwy gyfeirio at ddogfen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

Adran 5 Goruchwylwyr ar gludiant i ddysgwyr

27. Mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi p• er i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ymwneud â darparu goruchwylwyr ar gludiant i ddysgwyr gan gorff perthnasol a darparu hyfforddiant perthnasol ar gyfer y goruchwylwyr hyn.

Adran 6 a'r Atodlen Cosbau sifil

28. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r Atodlen sy'n mewnosod Atodlen A1 ym Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Mae darpariaethau'r Atodlen yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth drwy reoliadau ar gyfer cosbau sifil am dorri rheoliadau o dan adrannau newydd 14A neu 14B (y GPM-21-EM-S1

cyfeirir atynt yn Atodlen A1 newydd fel "rheoliadau diogelwch"). At ddibenion yr Atodlen, mae torri rheoliadau diogelwch yn cynnwys methiant i gydymffurfio â gofyniad yn y rheoliadau a rhwystro neu fethu â chynorthwyo awdurdod gorfodi (gweler adran 7 am ddarpariaeth ynghylch awdurdodau gorfodi). Ar yr awdurdod gorfodi y mae'n rhaid rhoi pob p• er i osod cosbau sifil.

29. Caiff Rheoliadau ddarparu am 4 math gwahanol o gosb sifil:

- cosbau ariannol penodedig,
- gofynion yn ôl disgrisiwn,
- hysbysiadau stop, ac
- ymgymeriadau gorfodi.

Cosbau ariannol penodedig (paragraffau 2 a 3 o Atodlen newydd A1)

30. Gofyniad i dalu cosb o swm a bennir yn y rheoliadau i awdurdod gorfodi yw "cosb ariannol benodedig". Y gosb fwyaf y caniateir ei gosod yw £5,000. Dim ond yngl•n ag achosion pan fo'r awdurdod gorfodi wedi ei fodloni yn ôl pwysau tebygolrwydd bod y rheoliadau wedi eu torri y caiff rheoliadau rhoi p• er i osod cosb ariannol benodedig.

31. Mae paragraff 3 o Atodlen A1 yn gosod y weithdrefn i osod cosbau ariannol penodedig gan gynnwys dyroddi hysbysiad o fwriad, cyfle i berson ei ryddhau ei hun o'r atebolrwydd, sut i gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau, hysbysiad terfynol, y broses apelio ar gyfer y person y gosodwyd y gosb ariannol benodedig arno a seiliau'r apêl.

32. Yn ogystal, dylai'r rheoliadau bennu'r amgylchiadau pryd na chaiff yr awdurdod gorfodi benderfynu gosod cosb ariannol benodedig, er enghraifft oherwydd rhesymau gweithredol eithriadol fel tywydd garw, cerbyd yn torri i lawr, neu argyfwng pan na fyddai disgyblion yn gallu mynd adref fel arall.

Gofynion yn ôl disgrisiwn (paragraffau 4, 5 a 6 o Atodlen A1 newydd)

33. Caiff rheoliadau ddarparu i awdurdod gorfodi osod un neu ragor o ofynion yn ôl disgrisiwn ar berson sy'n torri rheoliadau diogelwch. Unwaith eto, rhaid i'r awdurdod gorfodi gael ei fodloni yn ôl pwysau tebygolrwydd bod y rheoliadau wedi eu torri.

34. Caiff gofyniad yn ôl disgrisiwn gynnwys gofyniad i dalu cosb o swm a benderfynir gan awdurdod gorfodi; neu ofyniad i gymryd unrhyw gamau y mae'r awdurdod gorfodi yn eu pennu i sicrhau nad yw'r toriad yn parhau nac yn digwydd eto.

35. Ni chaniateir gosod gofyniad yn ôl disgrisiwn ar berson am yr un weithred neu anwaith ar un fwy nag un achlysur.

36. Mae paragraff 5 o Atodlen A1 yn gosod y weithdrefn ar gyfer gofynion yn ôl disgrisiwn gan gynnwys hysbysiad o fwriad, sut i gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau, talu cosbau yn achos cosb ariannol amrywiadwy a'r broses apelio, seiliau apêl a chanlyniadau peidio â chydymffurfio.

37. Hefyd, caniateir gwneud darpariaeth drwy reoliadau i ganiatáu i awdurdod gorfodi osod cosb ariannol ('cosb am beidio â chydymffurfio') ar berson sy'n methu â chydymffurfio â gofyniad yn ôl disgrisiwn i gymryd camau i sicrhau nad yw toriad yn parhau nac yn digwydd eto (paragraff 6 o Atodlen A1).

Hysbysiadau stop

38. Caiff y rheoliadau roi pŵer i awdurdod gorfodi i gyflwyno hysbysiad stop. Mae hysbysiad stop yn gwahardd person rhag cyflawni gweithgaredd a bennir yn yr hysbysiad hyd nes i'r person hwnnw gymryd y camau a bennir yn yr hysbysiad. Cyn dyroddi hysbysiad stop rhaid i arolygydd gael ei fodloni bod y gweithgaredd yn achosi risg sylweddol o achosi niwed difrifol i iechyd pobl ac yn cynnwys torri'r rheoliadau ynghylch y disgrifiadau o gerbydau a ddefnyddir yn gludiant i ddysgwyr.

39. Rhaid i reoliadau wneud darpariaeth ynghylch digolledu am golledion a ddiroddwyd o ganlyniad i gyflwyno hysbysiad. Ond ni chânt ddarparu ar gyfer digolledu ond mewn achosion a bennir yn y rheoliadau neu ond mewn perthynas â cholledion o ddisgrifiadau a bennir yn y rheoliadau. Rhaid hefyd i'r rheoliadau ddarparu ar gyfer apelau yn erbyn penderfyniadau i beidio â dyfarnu digollediad neu mewn perthynas â'r swm.

40. Pan na fydd person y cyflwynir hysbysiad iddo yn cydymffurfio â hysbysiad stop bydd y person hwnnw yn euog o dramgwydd ac yn agored -

- (a) ar gollfarn ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol (£5,000 ar hyn o bryd), neu gyfnod o garchar am gyfnod nad yw'n hwy na chwe mis, neu'r ddau, neu
- (b) o'i gollfarnu ar dditiad, i garchar am gyfnod nad yw'n hwy na dwy flynedd, neu ddirwy, neu'r ddau.

41. Pan fydd adran 154(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 wedi ei chychwyn, estynnir y cyfnod hwyaf o garchar ar gollfarn ddiannod i ddeuddeng mis (gweler paragraff 10 o Atodlen A1 newydd).

Ymgymeriadau gorfodi (paragraff 11 o Atodlen A1 newydd)

42. Caiff y rheoliadau roi pŵer i awdurdod gorfodi i dderbyn ymgymeriad gorfodi oddi wrth berson pan fo gan yr awdurdod gorfodi seiliau rhesymol i amau bod y person wedi torri'r rheoliadau diogelwch. Ymgymeriad i gymryd unrhyw gamau a bennir yn yr ymgymeriad cyn pen cyfnod a bennir yw ymgymeriad gorfodi. Effaith yr ymgymeriad yw cyhyd ag y bo cydymffurfiaeth â'r ymgymeriad ni ellir cymryd mathau eraill o gamau gweithredu mewn cysylltiad â'r weithred neu'r anwaith y mae'r ymgymeriad yn ymwneud â hwy. Dyma'r camau gweithredu na ellir eu cymryd tra bo ymgymeriad gorfodi ar

GPM-21-EM-S1

waith: achos yn ymwneud â thramgwydd troseddol, cosb ariannol benodedig neu ofyniad yn ôl disgrisiwn. Mae paragraff 11 o Atodlen A1 hefyd yn gosod y p• er i wneud darpariaeth drwy reoliadau ar gyfer gweithdrefn ymgymeriadau gorfodi, eu telerau, eu cyhoeddi, eu hamrywio a darpariaeth ynghylch cydymffurfiaeth, monitro ac apelau.

Cyfuno cosbau (paragraff 12 o Atodlen A1 newydd)

43. Mae paragraff 12 yn gwneud darpariaeth i sicrhau na ellir defnyddio cyfuniad o gosb ariannol benodedig, gofyniad yn ôl disgrisiwn a hysbysiad stop mewn perthynas â'r un toriad o reoliadau diogelwch.

Materion ategol

44. Yn achos cosbau ariannol, caiff y rheoliadau gynnwys darpariaeth ar gyfer disgowntiau am dalu'n gynnar, llog neu gosbau eraill am dalu'n hwyr, ac adennill cosbau, llog a chosbau am dalu'n hwyr fel dyledion sifil (paragraff 13 o Atodlen A1 newydd).

45. Caiff darpariaeth yn y rheoliadau hefyd ddarparu ar gyfer talu costau yr aeth awdurdod gorfodi iddynt; yn enwedig, costau ymchwilio, costau gweinyddu a chost cael cyngor arbenigol (paragraff 14 o Atodlen A1 newydd).

46. Rhaid i ddarpariaeth ar gyfer apelau yn y rheoliadau o dan Atodlen A1 ddarparu i apelau gael eu gwneud i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf neu i dribiwnlys arall a grëir o dan ddeddfiad (paragraff 15 o Atodlen A1 newydd).

47. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth i alluogi'r awdurdod gorfodi i'w gwneud yn ofynnol i'r person y gosodwyd y gosb arno gyhoeddi'r ffaith (paragraff 16 o Atodlen A1 newydd).

48. Caiff y rheoliadau ddarparu i swyddogion corff corfforaethol neu bartneriaeth fod yn agored yn bersonol i gosbau sifil yn ogystal â'r corff corfforaethol neu'r bartneriaeth ei hun (paragraff 17 o Atodlen A1 newydd).

49. Pan fo p• er yn cael ei roi i awdurdod gorfodi, rhaid i'r corff awdurdodi hwnnw gyhoeddi canllawiau am ddefnydd yr awdurdod gorfodi o gosbau sifil gan gynnwys yr amgylchiadau pryd y mae'n debygol y caiff y gosb ei gosod, yr amgylchiadau pan na chaniateir ei gosod, swm y gosb, sut y mae person yn cael ei ryddhau ei hun o'r atebolrwydd am y gosb ac effaith y rhyddhad hwnnw, a hawliau i gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau a hawliau apelio (paragraff 18 o atodlen A1 newydd).

50. Rhaid i reoliadau sy'n rhoi pwerau ar awdurdod gorfodi i osod cosbau sifil sicrhau bod yr awdurdod gorfodi yn cyhoeddi o bryd i'w gilydd adroddiadau sy'n pennu'r achosion pan fo cosbau sifil wedi eu gosod (paragraff 18 o Atodlen A1 newydd).

51. Rhaid i awdurdod gorfodi weithredu yn unol â'r egwyddor y dylid cyflawni pob gweithgaredd rheoleiddiol mewn ffordd sy'n dryloyw, atebol, cymesur a GPM-21-EM-S1

chyson ac na ddylid anelu gweithgareddau rheoleiddiol ond at achosion y mae angen cymryd camau gweithredu yn eu cylch (paragraff 20 o Atodlen A1 newydd).

52. Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu gweithrediad unrhyw ddarpariaethau a wnânt sy'n rhoi p• er i awdurdod gorfodi osod cosbau sifil. Rhaid i'r adolygiad ddigwydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol cyn pen tair blynedd ar ôl y dyddiad pryd y daw'r ddarpariaeth i rym (paragraff 21 o Atodlen A1 newydd).

53. Caniateir penodi Gweinidogion Cymru yn awdurdod gorfodi mewn rheoliadau. Os gwneir hynny, telir unrhyw arian a ddaw o gosbau sifil i Gronfa Gyfunol Cymru drwy effaith adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae paragraff 22 o Atodlen A1 newydd yn gwneud darpariaeth am dalu arian a ddaw o gosbau sifil i Gronfa Gyfun Cymru pan nad Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod gorfodi ond person neu gorff arall.

Adran 7 Awdurdod gorfodi

54. Mae'r adran hon yn rhoi p• er i Weinidogion Cymru i benodi person neu gorff yn awdurdod gorfodi. Caiff rheoliadau roi pwerau neu ddyletswyddau i awdurdod gorfodi at ddibenion gorfodi darpariaeth a wneir gan reoliadau o dan adran 14A, 14B ac Atodlen A1. Byddai hyn yn cynnwys (ymhlith pethau eraill) y p• er i awdurdodi personau (y cyfeirir atynt fel "arolygwyr") i arfer y pwerau mynediad ac arolygu a nodir yn adrannau 8 a 9 (gan fewnosod adran 14H a 14I yn y drefn honno).

Adran 8 Pwerau mynediad

55. Mae'r adran hon yn gosod p• er mynediad sy'n arferadwy gan berson a awdurdodir i'w arfer gan awdurdod gorfodi o dan reoliadau a wneir o dan adran 14G(3)(a). Cyfeirir at berson a awdurdodir yn y ffordd hon yn y Mesur fel "arolygydd". Caiff arolygydd, ar adeg resymol, fynd i gerbyd neu fangre –

- sydd dan berchenogaeth neu reolaeth awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir; neu
- a ddefnyddir neu y bwriedir eu defnyddio gan unrhyw berson mewn cysylltiad â darparu cludiant i ddysgwyr.

Hefyd, caiff arolygydd cadw cerbyd yn gaeth. Nid yw p• er mynediad yn cynnwys y p• er i fynd i fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn annedd breifat.

Adran 9 Pwerau arolygu

56. Mae'r adran hon yn darparu y caiff arolygydd sy'n cadw cerbyd yn gaeth neu'n mynd i gerbyd neu fangre arolygu'r cerbyd neu'r fangre; arolygu, cymryd copïau o unrhyw ddogfennau neu gofnodion sy'n ymwneud â darparu cludiant i ddysgwyr o'r cerbyd neu'r fangre a mynd â hwy oddi yno; ac arolygu unrhyw eitem arall a mynd ag ef o'r cerbyd neu'r fangre.

57. Bydd unrhyw berson sy'n rhwystro arolygydd heb esgus rhesymol yn euog o dramgwydd ac yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol (£2,500 ar hyn o bryd).

Adran 10 Y p• er i fynnu gwybodaeth

58. Mae'r adran hon yn rhoi p• er i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i roi p• er i awdurdod gorfodi i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol neu berson sy'n darparu cludiant i ddysgwyr ddarparu gwybodaeth, dogfennau, cofnodion ac eitemau eraill sy'n ymwneud â chludiant i ddysgwyr ac a ystyrir gan yr awdurdod gorfodi i fod yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion ei swyddogaethau.

59. Bydd unrhyw berson sy'n methu â darparu gwybodaeth, dogfennau, cofnodion nag eitemau eraill heb esgus rhesymol yn euog o dramgwydd ac yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol (£2,500 ar hyn o bryd).

Adran 11 Tramgwyddau: atebolrwydd swyddogion a phartneriaid

60. Mae'r adran hon yn rhoi p• er i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau eu heffaith fydd y caniateir i swyddogion corff corfforaethol neu bartneriaeth fod yn bersonol atebol am dramgwyddau a gyflawnir o dan adrannau 14A neu 14B gan y corff corfforaethol neu'r bartneriaeth, yn ogystal â'r corff corfforaethol neu'r bartneriaeth ei hun.

Adran 12 Rheoliadau: Ymgynghori

61. Mae adran 12 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phob awdurdod lleol ac unrhyw bersonau eraill y mae'n briodol yn eu barn hwy ymgynghori â hwy cyn gwneud unrhyw reoliadau o dan adrannau newydd 14A i 14E, adran 14G neu 14K neu Atodlen A1 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr(Cymru) 2008 (fel y'i diwygir gan y Mesur arfaethedig).

Adran 14 Darpariaethau cyffredinol am orchmynion a rheoliadau

62. Mae'r adran hon yn diwygio adran 27 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 sy'n gwneud darpariaeth i orchmynion a rheoliadau gael eu gwneud drwy offeryn statudol, pwerau ategol i wneud darpariaeth drwy orchmynion neu reoliadau a gweithdrefnau craffu gan y Cynulliad.

63. Mae adran 14(2) o'r Mesur Arfaethedig yn diwygio adran 27(2) o Fesur 2008 i estyn cwmpas y pwerau i wneud gorchmynion a rheoliadau o dan Fesur 2008 i gynnwys:

- gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer dosbarthau gwahanol ar achos neu at ddibenion gwahanol,
- gwneud darpariaeth sy'n ddarostyngedig i esemptiad neu eithriadau penodedig, ac
- gwneud darpariaeth mewn perthynas â dosbarth penodol o achos.

64. Diben adran 14(3) yw darparu bod y cyfan o'r pwerau newydd i wneud rheoliadau o dan y Mesur Arfaethedig yn cynnwys y p• er i wneud diwygiadau canlyniadol. A diben is-adran (4) yw darparu bod y p• er i wneud darpariaeth gysylltiedig, darpariaeth drosiannol, darpariaeth arbed neu ddarpariaeth ganlyniadol o dan y pwerau newydd yn cynnwys p• er i ddiwygio neu ddiddymu darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad, Deddfau Senedd y DU ac is-ddeddfwriaeth a basiwyd neu a wnaed cyn pasio'r Mesur Arfaethedig. Is-adran (5) yw'r ddarpariaeth sy'n cymhwyso gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol i bob rheoliad a wneir o dan y Mesur Arfaethedig.

Adran 15 Cychwyn

65. Daw pob darpariaeth yn y Mesur i rym ar ddiwedd cyfnod o ddau fis fydd yn dechrau ar y diwrnod y cymeradwyir y Mesur Arfaethedig gan y Frenhines yn y Cyfrin Gyngor. Ond nid oes unrhyw newid gweithredol i'w wneud i ddarpariaeth cludiant i ddysgwyr cyn i reoliadau yn cael eu gwneud o dan y Mesur a chyn iddynt ddod i rym.

Atodiad B

Crynodeb o'r Arolwg Teithio i'r Ysgol Mai 2010

1. Nifer y plant ysgol yng Nghymru ym mis Ionawr 2009

Plant ysgol gynradd	258,314
Plant ysgol uwchradd	205,421
Disgyblion mewn ysgolion arbennig	4,115
Cyfanswm y disgyblion (ac eithrio'r rhai mewn ysgol feithrin, unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion annibynnol)	467,850

2. Nifer y myfyrwyr sy'n defnyddio'r mathau canlynol o gludiant wrth deithio ar 1 Medi 2009

O dan contract gan awdurdod lleol:	
Bodloni'r fanyleb ar gyfer 'bysiau melyn'	7,257
Bws mini	10,954
Cerbyd unllawr, arall	63,513
Cerbyd deulawr	8,872
Wedi'i ariannu gan awdurdod lleol:	
Bws gwasanaeth	12,589
Tacsi neu gerbyd hurio preifat	6,848
Trên	324
Y cyfanswm sydd o dan contract neu wedi'i ariannu gan awdurdod lleol	110,357

3. Nifer y bysiau o dan contract a ddefnyddir at ddibenion cludiant i ddysgwyr ar 1 Medi 2009

Unllawr:	
'Bws melyn'	120
Bws mini	1,223
Arall	1,820
Cyfanswm y cerbydau unllawr	3,163
Deulawr	
	132
Cyfanswm	3,295

4. Nifer y bysiau dan gcontract gyda gwregysau diogelwch wedi'u gosod ar 1 Medi 2009

	Gwregysau diogelwch wedi'u gosod	Gwregysau diogelwch heb eu gosod	Dim gwybodaeth	Cyfanswm
Unllawr				
'Bws melyn'	120	0	0	0
Bws mini	1,211	6	6	1,223
Arall	1,517	53	250	1,820
Cyfanswm				
Deulawr	46	82	4	132
Cyfanswm	2,894	141	260	3,295

5. Nifer y bysiau sydd wedi'u cofrestru yn y DU cyn 1 Hydref 01 ar gyfer pob math o ysgol ar 1 Medi 2009

	Wedi'u cofrestru cyn 1.10.2001	Wedi'u cofrestru ar ôl 1.10.2001	Dim cofnod o'r dyddiad cofrestru	Cyfanswm
Unllawr:				
'Bws melyn'				
Cynradd	3	6	17	26
Uwchradd	19	74	0	93
AAA	0	1	0	1
Cyfanswm	22	81	17	120
Bws mini				
Cynradd	55	94	72	221
Uwchradd	53	65	80	198
AAA	86	201	143	430
Dim gwybodaeth	134	150	90	374
Cyfanswm	328	510	385	1,223
Cerbyd unllawr arall				
Cynradd	104	49	124	277
Uwchradd	465	198	277	940
AAA	0	0	65	65
Dim gwybodaeth	193	113	232	538
Cyfanswm	762	360	698	1,820

Deulawr				
Cynradd	0	0	0	0
Uwchradd	90	8	34	132
AAA	0	0	0	0
Dim gwybodaeth	90	8	34	132
Cyfanswm	1,202	959	1,134	3,295

6. Nifer y bysiau dan gontract â theledu cylch cyfyng wedi'i osod ar 1 Medi 2009

	Wedi'i osod	Heb ei osod	Dim cofnod	Cyfanswm
Unllawr:				
'Bws melyn'	113	7	0	120
Bws mini	51	669	503	1,223
Arall	436	707	677	1,820
Deulawr	63	34	35	132
Cyfanswm	663	1,417	1,215	3,295

7. Nifer y bysiau dan gontract sydd â hebryngwyr ar gyfer pob math o ysgol Medi 2009

Unllawr:	Hebryngwyr wedi'u defnyddio	Hebryngwyr heb eu defnyddio	Dim cofnod	Cyfanswm
'Bws melyn'				
Cynradd	10	29	0	39
Uwchradd	0	75	5	80
AAA	1	0	0	1
Cyfanswm	11	104	5	120
Bws mini:				
Cynradd	86	105	0	191
Uwchradd	2	199	0	201
AAA	448	45	0	493
Dim gwybodaeth	0	0	338	338
Cyfanswm	536	349	338	1,223
Cerbyd unllawr arall				
Cynradd	194	84	1	279
Uwchradd	12	928	0	940
AAA	66	16	0	82
Dim	0	0	519	519

gwybodaeth				
Cyfanswm	272	1,028	520	1,820
Deulawr				
Cynradd	0	0	0	0
Uwchradd	8	124	0	132
AAA	0	0	0	0
Dim gwybodaeth	8	124	0	132
Cyfanswm	827	1,605	863	3,295

8. Nifer yr awdurdodau lleol sy'n ei gwneud yn ofynnol bod gyrwyr bysiau dan gontract neu hebryngwyr yn derbyn hyfforddiant penodol er mwyn gweithio gyda myfyrwyr Medi 2009

	Hyfforddiant yn ofynnol	Hyfforddiant ddim yn ofynnol
Gyrwyr	9	13
Hebryngwyr	15	7

Amcangyfrif o gostau gros y prif gynigion

Nodir isod amcangyfrif o gostau gros uwchraddio cerbydau a ddefnyddir i ddarparu cludiant i ddysgwyr yng Nghymru.

Gosod gwregysau diogelwch priodol

Yn seiliedig ar gostau blaenorol i awdurdodau lleol, amcangyfrifir mai cost gosod gwregysau diogelwch ar gerbyd â 70 sedd, ar gyfartaledd, yw £11,000. Mae'r gost yn cynnwys ailosod y seddau, gosod gwregysau diogelwch triphwynt addas at bob oed a, lle bo angen, gryfhau'r llawr a hefyd y Dystysgrif Addasrwydd Cychwynnol (COIF) gan yr Adran Drafnidiaeth/VOSA.

Cofnododd arolwg Uned Ddata Llywodraeth Leol yn Atodiad B fod gwregysau diogelwch wedi'u gosod ar 2,894 o'r bysiau a ddefnyddir i ddarparu cludiant i ddysgwyr. Nid oes gwregysau diogelwch ar 141 o fysiau ac mae 260 o fysiau lle nad oes gwybodaeth ar gael ar eu cyfer. Byddai cost gosod gros o uwchraddio 141 o fysiau oddeutu £1.5m (yn seiliedig ar gost o £11,000 am bob cerbyd). Fodd bynnag, petai angen gosod gwregysau diogelwch ar gyfran uchel o'r bysiau hynny nad oes gwybodaeth ar eu cyfer yna gallai'r gost gros godi i £4.5m.

Trafodir y costau cudd posibl ym mharagraff 8.8.

Cost darparu cerbydau unllawr yn lle cerbydau deulawr

Cofnododd adroddiad Uned Ddata Llywodraeth Leol fod 132 o gerbydau, allan o fflyd o 3,295 o gerbydau deulawr, yn cario 8,872 o fyfyrwyr. Amcangyfrifir mai cost rhedeg bws ysgol ar gyfartaledd yw £30,000 y flwyddyn.

Ar gyfartaledd mae cerbydau deulawr yn cario 67 o fyfyrwyr tra bo cerbydau unllawr (ac eithrio bysiau mini) yn cario 36 o fyfyrwyr ar gyfartaledd. Yn aml iawn, fodd bynnag, mae lle ar gerbyd unllawr i gario mwy na 36 ac mae rhai cerbydau unllawr wedi'u dylunio i gario hyd at 70 o deithwyr.

Yn seiliedig ar amcangyfrif y gallai fod angen cyfanswm o 225 o gerbydau unllawr ychwanegol i'w defnyddio yn lle'r 132 o gerbydau deulawr, amcangyfrifir mai costau rhedeg blynyddol gros y cerbydau ychwanegol yw oddeutu £2.8m.

Bydd asesiad manwl o'r costau cynyddrannol a allai godi o ddarparu cerbydau unllawr yn lle cerbydau deulawr yn rhan o unrhyw asesiad i'w gynnal o'r cynigion ar gyfer rheoliad penodol yn y dyfodol.

Trafodir y costau cudd posibl ym mharagraff 8.8.

Cost gros sicrhau bod yr holl gerbydau a ddefnyddir wedi'u gweithgynhyrchu ar ôl 1 Hydref 2001

Cofnododd arolwg Uned Ddata Llywodraeth Leol fod 1,202 o fysiau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cludiant dan gontract i ddysgwyr wedi'u cofrestru cyn 1 Hydref 2001, bod 959 wedi'u cofrestru ar ôl 1 Hydref 2001 a bod 1,134 arall heb wybodaeth ar eu cyfer. Awgryma'r data hyn y gallai hyd at ddwy ran o dair o'r stoc bysiau penodedig ar gyfer cludiant i ddysgwyr fod wedi'u gweithgynhyrchu cyn 2001.

Amcangyfrifir mai cost darparu bws ysgol newydd fyddai £130,000. Gan dybio mai ei oes weithredol fyddai 15 mlynedd, yn unol â'r argymhellion cyfredol, amcangyfrifir mai'r tâl gros ar gyfer y costau rhedeg ychwanegol y flwyddyn ar gyfer y bysiau newydd fyddai £10.4m ar gyfer 1,202 o fysiau neu £20.2m ar gyfer 2,336 o fysiau.

Mae'r amcangyfrif yn adlewyrchu'r gost gros ac nid yw'n ystyried yr arbedion posibl o ran cost i'w gwneud ar gostau rhedeg megis costau tanwydd.

Cost gosod teledu cylch cyfyng ar gerbydau penodedig sy'n darparu cludiant i ddysgwyr

Yn ôl adroddiad gan Uned Ddata Llywodraeth Leol ar gyfer fflyd o 3,295 o fysiau, y mae teledu cylch cyfyng wedi'i osod ar 663 o fysiau, nid oes teledu cylch cyfyng wedi'i osod ar 1,417 ac nid oes gwybodaeth ar gael am y 1,215 sy'n weddill.

Ar sail costau cyfartalog o £1,550 ar gyfer prynu a gosod, byddai'r gost o osod teledu cylch cyfyng ar 1,417 o gerbydau tua £2.2m. Petaem yn rhagdybio y byddai angen gosod teledu cylch cyfyng ar y 1,215 o fysiau nad oes gwybodaeth ar gael ar eu cyfer, gallai'r gost godi i ryw £4m.

Yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, amcangyfrifa swyddogion mai'r gost gros o osod teledu cylch cyfyng fyddai rhwng £2.2m a £4m. Yn ogystal â hynny, byddai angen tua £300,000 y flwyddyn i gynnal a chadw'r camerâu.

Bodloni'r amodau ynghylch defnyddio hebryngwyr ar fysiau a bennir gan Weinidogion Cymru

Amcangyfrifir mai cost flynyddol defnyddio hebryngwr ar fws yw £6,084 y flwyddyn. Cofnoda Uned Ddata Llywodraeth Leol fod 827 o fysiau yn defnyddio hebryngwyr, bod 1,605 o fysiau heb hebryngwyr ac nad oes gwybodaeth ar gael ar gyfer 863 o fysiau pellach.

Amcangyfrifir y byddai cost rhoi hebryngwr ar bob bws oddeutu £9.8m i £15m. Byddai'r costau yn gostwng petai hebryngwyr yn cael eu rhoi ar gerbydau

ysgolion cynradd yn unig a'r gost ar gyfer 114 o gerbydau (ac eithrio bysiau mini) fyddai £694,000.

Mae'r ffigurau hyn yn cymryd yn ganiataol:

- mai un hebryngwr fyddai ar bob bws am bob llwybr (hynny yw, nid yw hyn yn ystyried trefnu dwy daith yn un na dulliau eraill o arbed costau)
- nad yw hyn yn cynnwys y gost o reoli'r cynorthwywyr teithwyr.

Bodloni'r fanyleb ar gyfer safonau cynnal asesiad risg ar bob contract cludiant rhwng y cartref a'r ysgol a bennir gan Weinidogion Cymru

Amcangyfrifir mai cost flynyddol gweinyddu asesiadau risg diogelwch fydd £30,000. Nid yw'r costau hyn yn cynnwys y canlynol:

- Y costau uwch i'r gweithredwyr ac ysgolion sy'n deillio o weinyddu'r system o gynnal asesiadau risg diogelwch.
- Costau camau i'w cymryd i liniaru effaith y risgiau a ganfyddir yn unol â'r canllawiau.

Cost sicrhau bod yr holl gerbydau yn bodloni'r fanyleb ar gyfer 'bysiau melyn' a safonau bysiau o'r fath

Mae'n bwysig nodi bod y diffiniad ar gyfer 'bysiau melyn' yn amrywio. Nodir ym mharagraff 3.25 nodweddion cyffredin y fanyleb ar gyfer 'bysiau melyn' rydym wedi'u defnyddio i amcangyfrif y costau.

Costau anghylchol	
Gosod gwregysau diogelwch ar fflyd o gerbydau sy'n darparu cludiant i ddysgwyr	Rhwng £1.5m a £4.5m*
Gosod teledu cylch cyfyng ar fflyd o gerbydau sy'n darparu cludiant i ddysgwyr	Rhwng £2.2m a £4m***
Costau cylchol y flwyddyn	
Darparu bysiau unllawr yn lle'r fflyd o fysiau deulawr	Tua £2.8m
Darparu hebryngwyr	Rhwng £9.8m a £15.0m***
Costau cynnal a chadw teledu cylch cyfyng	Tua £0.3m***

Yn seiliedig ar y nodweddion cyffredin hyn byddai'r amcangyfrif ar gyfer y costau gros o bennu'r nodweddion ar gyfer 'bysiau melyn' mewn perthynas â

phob bws sy'n darparu cludiant i ddysgwyr rhwng £3.7m a £8.5m fel costau untro a rhwng £12.9m a £18m fel costau cylchol blynyddol.

Tybir na fydd costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i fabwysiadu prosesau gweithredol 'Bysiau melyn' megis hyfforddiant disgyblion, gan eu bod eisoes wedi'u cwmpasu yn y cyngor a'r canllawiau presennol ar arferion da.

Bodloni safonau hyfforddi gyrwyr a bennir gan Weinidogion Cymru

Un o ofynion deddfwriaethol pob gyrrwr proffesiynol yw derbyn hyfforddiant tuag at y Dystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol. Mae rhai awdurdodau lleol neu gonsortia trafndiaeth yn darparu rhan o'r hyfforddiant hwn neu'r cyfan ohono.

Ar hyn o bryd, telir am y gost o ddarparu'r hyfforddiant drwy godi tâl o £150 y person ar y gweithredwr. Gan fod hyn yn ofynnol yn gyfreithiol ni ddylai fod goblygiadau i hyn o safbwynt costau contractau i awdurdodau lleol.

Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dibynnu ar i ba raddau y bydd Rheoliadau yn pennu gofynion hyfforddi ychwanegol.

Costau gorfodi a gweinyddu

Mae'r prif gostau sy'n gysylltiedig â gorfodi yn ymwneud â gweinyddu awdurdod gorfodi a thribiwnlys apêl.

Gan dybio y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud darpariaeth fewnol ar gyfer camau gorfodi yna, ar sail pum aelod o'r staff a fydd yn cynnwys y canlynol:

- 1 Pennaeth yr awdurdod gorfodi (Band D) – Parc Cathays, Caerdydd
- 4 Swyddog Gorfodi (Band C) - Un am bob Ardal Consortia Trafndiaeth; (Taith - Cyffordd Llandudno; TraCC - Aberystwyth - Rhodfa Padarn; SWWITCH - Parc Busnes Penllergaer a Sewta - Parc Cathays, Caerdydd)

amcangyfrifir y bydd costau cyflogau'r staff yn £153,786 y flwyddyn.

Bydd pob aelod o'r staff wedi'i leoli yn swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ogystal, bydd cost yn gysylltiedig â gosod TGCh a theleffoni, deunydd ysgrifennu, iwnifformau a chyfarpar iechyd a diogelwch.

Caiff y costau hyn eu cyfrifo unwaith y cytunir ar strwythur terfynol yr awdurdod gorfodi. Byddai'r holl gostau yn cael eu talu o fewn costau rhedeg adrannol Prif Gr• p Gwariant Adran yr Economi a Thrafnidiaeth.

Costau'r tribiwnlys

Amcangyfrifir, ar gyfartaledd, bod gan 100-150 o weithredwyr bysiau ac awdurdodau lleol contractau cludiant i'r ysgol. Awgryma tystiolaeth ar gyfer cyflwyno'r cod ymddygiad statudol, sef y Cod Ymddygiad wrth Deithio, bod y rhan fwyaf o'r gweithredwyr yn debygol o gydymffurfio â'r rheoliad newydd ac mai prin fydd y gweithredwyr hynny sy'n debygol o dorri'r rheoliadau.

Caiff y gwaith o ddatblygu Tribiwnlys Apêl ei wneud ar y cyd ag Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet sydd wrthi ar hyn o bryd yn ystyried argymhellion adolygiad Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd y Pwyllgor Cymreig sef *Adolygiad o Dribiwnlysoedd sy'n Gweithredu yng Nghymru*.

Tynnodd yr adolygiad sylw at yr amrywiaeth mawr yng nghostau rhedeg y tribiwnlysoedd o ganlyniad i'r trefniadau gweinyddol gwahanol. Yr amcangyfrif a wnaed o'r costau cymorth ar gyfer Panel Dyfarnu Cymru a ymdriniodd ag wyth achos apêl yn 2007/08 oedd £79,713 a'r costau llety ar gyfer gwrandawladau oedd £4,705.

Rhagwelir y byddai'r llwyth achosion a'r trefniadau gweinyddol yn debyg ac, yn sgil hynny, y byddai costau tebyg yn gymwys mewn perthynas ag apelau a gâi eu gwneud o dan y Mesur hwn.